


Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

diogelu cleifion, rheoleiddio'r tîm deintyddol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2011

www.gdc-uk.org

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2011

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 12 Mehefin 2012

HC136
Llundain: Y Llyfrfa
£16.00
SG/2012/83

© Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2012)

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim (heblaw am logos yr Arfau Brenhinol a logos pob adran ac asiantaeth) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd â'r hawlfraint i'r deunydd a dylid nodi teitl y ddogfen. Pan nodir deunydd trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd y deilydd hawlfraint priodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ddogfen hon/y cyhoeddiad hwn, dylech anfon e-bost i information@gdc-uk.org neu ffonio: 0845 222 4141

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn ar www.official-documents.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.gdc-uk.org

ISBN: 978-0-10-297602-1

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

Rhif Adnabod: P002478723 05/12

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi'u hailgylchu.

# Tudalen gynnwys


| Adran | Teitl | Rhif tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Diben Statudol | 6 |
| 2 | Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 7 |
| 3 | Darparu yn erbyn Cynllun Busnes 2011 | 8 |
| 4 | Adroddiad ystadegau rheoleiddio: | 14 |
| | Cofrestru | 14 |
| | Addasrwydd i Ymarfer | 18 |
| | Gwrandawiadau | 20 |
| 5 | Aelodau'r Cyngor | 21 |
| 6 | Rheolaeth | 27 |
| 7 | Adolygiad ariannol | 33 |
| 8 | Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr | 37 |
| 9 | Datganiad ar reolaeth fewnol | 38 |
| 10 | Cyfrifon 2011 | 42 |
| 11 | Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | 43 |
| 12 | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd | 45 |
| 13 | Cyfrif Incwm a Gwariant | 46 |
| 14 | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | 47 |
| 15 | Datganiad Llif Arian | 48 |
| 16 | Datganiad o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn | 49 |
| 17 | Nodiadau i'r cyfrifon | 50 |
| 18 | Cynghorwyr | 74 |

# Diben Statudol

# 1

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i bob deintydd, nyrs ddeintyddol, technegydd deintyddol, technegydd deintyddol clinigol, hylenydd deintyddol, therapydd deintyddol a therapydd orthodontig gofrestru gyda ni cyn gallu gweithio yn y DU.

Ein diben yw diogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio'r tîm deintyddol. Rydym yn gwneud hyn trwy:

- Gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys
- Gosod safonau uchel o ran ymarfer deintyddol ac ymddygiad
- Sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol
- Sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf
- Helpu cleifion â chwynion

# Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

# 2

Diben craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (y Cyngor) yw diogelu cleifion. Rydym ni'n dyblu'n hymdrechion er mwyn gwneud yn siŵr bod pob rhan o'n gwaith yn cyfrannu at osod a chynnal safonau mewn deintyddiaeth er lles y cyhoedd.

Rhan sylfaenol o fod yn rheoleiddiwr gofal iechyd llwyddiannus yw ymateb i gymhlethdodau'r byd rydym ni'n gweithredu ynddo. Mae papur gorchymyn Llywodraeth y DU, *Enabling Excellence* yn gosod y cyd-destun ar gyfer dyfodol rheoleiddio gofal iechyd ac rydym wedi dechrau ystyried beth mae hyn yn ei olygu i'r Cyngor. Mae gweinyddiaethau datganoledig wrthi'n datblygu eu systemau darparu a rheoleiddio gofal iechyd eu hunain; rhaid i ni sicrhau bod ein rôl ledled y DU yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon. Rhaid hefyd ystyried y cyd-destun Ewropeaidd, ac er ein bod yn cydnabod pa mor werthfawr yw caniatáu i weithwyr proffesiynol symud yn rhydd ledled yr UE, rydym wedi mynd ati'n ddiwyd i hyrwyddo materion sy'n ymwneud â diogelu cleifion wrth adolygu'r Gyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau.

Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, rhaid i'r Cyngor hefyd gyflawni'i swyddogaethau craidd mewn modd effeithiol ac effeithlon, heb beryglu diogelwch y cleifion. Un o'n nodweddion allweddol yn 2011 oedd mynd ati i foderneiddio a diwygio'n prosesau Addasrwydd i Ymarfer. Rydym ni'n dechrau gweld canlyniadau da yn y maes hwn a byddwn yn parhau â'r rhaglen wella trwy 2012, gan alw am ddiwygiadau deddfwriaethol er mwyn sicrhau newidiadau buddiol mwy sylfaenol.

Gwnaethom gynnydd sylweddol hefyd o ran adolygu'n Safonau ar gyfer Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol yn 2011- y canllawiau craidd sy'n nodi beth a ddisgwylir gan y rhai rydym ni'n eu cofrestru. Mae'n gwaith yn seiliedig ar ganfyddiadau gwaith ymchwil gyda chleifion, y cyhoedd a gweithwyr deintyddol proffesiynol. Rydym yn benderfynol o gynhyrchu cyfres ddiwygiedig o safonau a fydd yn gwella diogelwch cleifion ac yn offeryn ymarferol defnyddiol i weithwyr deintyddol proffesiynol.

Gellir diogelu'r cyhoedd mewn nifer o ffyrdd, ac mae'r gwaith rydym ni'n ei wneud i sicrhau safonau addysg ddeintyddol yn rhan allweddol o hyn. Yn 2011, cyhoeddodd y Cyngor *Preparing for Practice – dental team learning outcomes for registration*. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth glir i addysgwyr a hyfforddwyr am y sgiliau a'r ymddygiad rydym yn disgwyl i weithwyr deintyddol proffesiynol eu dangos cyn iddynt wneud cais i gofrestru gyda ni. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y 'dull hwn o ganolbwyntio ar ganlyniadau' yn cael ei weithredu ledled y sector hyfforddiant deintyddol.

Rydym ni'n dal i fod yn ymwybodol iawn o'r angen i gadw'n costau rheoleiddio ac ati'n isel, felly yn 2011, penderfynodd y Cyngor rewi'r tâl cadw blynyddol ar gyfer 2012. Ochr yn ochr â hyn, aethom ati i gynnal ymgyrch effeithlonrwydd fawr; nodir y canlyniadau a gyflawnwyd yn 2011 a'r rhai y disgwylir eu cyflawni yn 2012 yn yr adroddiad hwn.



**Kevin O'Brien,
Cadeirydd**



**Evlynne Gilvarry,
Prif Weithredwr a Chofrestrydd**

# Darparu yn erbyn Cynllun Busnes 2011

## Safonau

| Amcanion | Darpariaeth yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Sicrhau bod ein safonau yn briodol ac yn parhau i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd | Dechreuwyd yr adolygiad o'r canllawiau ar y Safonau yn 2010 gan barhau yn 2011. Bu'r Cyngor yn ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth gyda chleifion a'r cyhoedd, y gweithwyr cofrestredig, cyflogwyr, addysgwyr a swyddogion indemnio ac mae'r gwaith hwn wedi llywio'r adolygiad er mwyn sicrhau bod y Safonau'n addas i'r diben. |
| 2. Diffinio cwmpas ymarfer i bob aelod o'r tîm deintyddol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion | Cynhaliodd gweithgor a sefydlwyd gan y Cyngor adolygiad o'r ddogfen Cwmpas Ymarfer gyfredol a chyflwyno eu canfyddiadau i'r Cyngor. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod Cwmpas Ymarfer diwygiedig yn cael ei gysylltu'n agos â'r diwygiadau arfaethedig i'r Safonau a'r gwaith sy'n cael ei wneud i brofi pa mor ymarferol yw hi i gleifion gael mynediad uniongyrchol i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol. |
| 3. Sefydlu polisi addasrwydd i ymarfer craidd | Cafodd y gwaith hwn ei gynnwys mewn adolygiad ehangach o bob polisi a phroses addasrwydd i ymarfer yn ystod y flwyddyn. Mae'r newidiadau nad oedd yn gofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol wedi'u gwneud eisoes. Er enghraifft, cyflwyno system brysbennu newydd er mwyn i'r achosion mwyaf difrifol cael eu gweld yn gyflym a chyflwyno cyngor clinigol arbenigol pan fydd achosion yn cychwyn. Byddwn yn mynd ati i geisio cyflawni diwygiadau eraill sy'n gofyn am newid mewn deddfwriaeth yn 2012. |
| 4. Gweithredu strategaeth gyfathrebu ynglŷn â'n safonau rheoleiddio i gleifion a'r cyhoedd, i'r tîm deintyddol, i'r sector deintyddol a'r maes polisi | Aethpwyd ati'n ddiwyd i gyfathrebu ac ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cleifion a'r cyhoedd, y rhai sydd wedi cofrestru a swyddogion indemnio er mwyn helpu i lunio'r adolygiad o safonau. Mae Gwenwch, ein taflen wybodaeth i gleifion, wedi'i chyfieithu i nifer o ieithoedd cymunedol. Rydym yn defnyddio'r GDC Gazette a'r wefan i gyfathrebu'n uniongyrchol â gweithwyr cofrestredig ar faterion sydd wedi'u cynllunio i gefnogi safonau ymarfer uchel. Mae'r wefan yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion a'r cyhoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth. |

# 3

## Cofrestru

| Amcan | Darpariaeth yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol, yn hygyrch ac yn briodol ar gyfer ein cynulleidfaoedd gwahanol | Mae'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud i'r gofrestr ar-lein yn cynnwys: geirfa ddiwygiedig; gwybodaeth am gosbau addasrwydd i ymarfer; statws a lle gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth; gwybodaeth am y rhai oedd wedi cofrestru ond sydd wedi'u dileu o'r gofrestr; a chyfleuster chwilio "sounds like" a chwilio yn ôl enw cyntaf.<br><br>Mae'r cyfleuster "search the register" yn llawer mwy amlwg ar dudalen hafan gwefan y Cyngor ac mae'n haws i'w defnyddio. |
| 2. Sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd trwy gyflwyno mesurau gwirio priodol cyn cynnwys unigolyn ar y gofrestr | Cyflwynwyd gwiriadau manylach yn 2011. Er enghraifft, rhaid i ymgeiswyr sy'n sefyll yr Arholiad Cofrestru Tramor (ORE) gyflwyno llun maint pasbort a ardystiwyd gan weithiwr proffesiynol os nad yw'r llun yn debyg i'r llun yn y pasbort. Caiff y llun ei lanlwytho i gofnod yr ymgeisydd ar gronfa ddata'r Cyngor a'i ddefnyddio yn y broses wirio ar ddechrau pob arholiad. |
| 3. Sicrhau bod ymarfer proffesiynol y rhai ar y gofrestr yn gyfredol trwy ddarparu tystiolaeth o ymarfer diogel a chymwys parhaus | Yn 2011, cynhaliwyd archwiliad o'r ffurflenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gwblhawyd gan y rhai sydd ar y gofrestr. Yn ogystal â hyn, lluniwyd rhaglen i archwilio ceisiadau cofrestru er mwyn gwneud yn siŵr bod ceisiadau'n cydymffurfio â'r gyfres lawn o ofynion cofrestru, sy'n cynnwys tystiolaeth o'r Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gwblhawyd. |
| 4. Darparu tystiolaeth gadarn ar gyfer tynnu neu ailgyflwyno rhywun i'r gofrestr, ar sail diogelwch cleifion | Mae yna reoliadau mewnol llym ar waith er mwyn gwneud yn siŵr mai dim ond aelodau staff penodedig sy'n gallu cynnwys a/neu ddileu pobl o'r gofrestr. |

# Darparu yn erbyn Cynllun Busnes 2011

parhad

## Addasrwydd i Ymarfer

| Amcan | Darpariaeth yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Gweithredu prosesau addasrwydd i ymarfer sy'n bodloni amrywiaeth o feini prawf perfformio allanol | Yn 2011, cynhaliwyd adolygiad o'r system addasrwydd i ymarfer er mwyn pennu'r gofynion newid allweddol i wella perfformiad ac effeithlonrwydd o fewn y broses addasrwydd i ymarfer. Rydym yn mynd i'r afael â'r rhain trwy raglen o newidiadau gweithredol, a newidiadau i bolisïau a deddfwriaeth.<br><br>Cytunwyd ar ddau newid allweddol yn 2011. Y newid cyntaf oedd cyflwyno proses brysbennu i reoli cwynion wrth eu derbyn ac i sicrhau bod achosion mwy difrifol yn cael eu trin yn gyflym.  Rhoddwyd y newid hwn ar waith ym mis Tachwedd 2011. Roedd yr ail newid yn ymwneud â chael cyngor clinigol arbenigol ar ddechrau achosion lle bo'n briodol. Daeth y newid hwn i rym ym mis Ionawr 2012.<br><br>Nodwyd newidiadau pellach, a oedd yn gofyn am newid deddfwriaethol, yn 2011, a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain yn 2012.  Elfen allweddol o'r newidiadau hyn yw cyflwyno archwilwyr achosion sydd â'r awdurdod i gyflwyno cyngor a rhybuddion, cytuno ar ymrwymiadau a'u rheoli, ac atgyfeirio achosion i Bwyllgor Ymarfer. Er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith, bydd angen diwygio'r Ddeddf Deintyddion a byddwn yn gweithio gyda'r Adran Iechyd yn 2012 i gyflawni hyn. |
| 2. Gweithredu proses systematig er mwyn gwerthuso gweithdrefnau a chanlyniadau addasrwydd i ymarfer | Sefydlwyd tîm cydymffurfio ym mis Tachwedd 2011 gyda'r cylch gwaith i sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer y prosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer. Trwy raglen archwilio bydd y tîm hwn yn ceisio nodi lle gellir gwella'r prosesau a'r ffordd o'u defnyddio. Dechreuwyd ar raglen archwilio yn 2011 a oedd yn canolbwyntio ar weinyddu a gwneud penderfyniadau yng nghyfnod ymchwilio achosion addasrwydd i ymarfer.  Bydd y rhaglen hon yn parhau yn 2012, ac yn ehangu i gynnwys pob agwedd ar y prosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer. |

# 3

| Amcan | Darpariaeth yn erbyn amcan |
|---|---|
| 3. Gweithredu system rheoli achosion effeithiol | Aethpwyd ati i ddatblygu system rheoli achosion addas i'r diben gydol 2011. Nod y system yw hwyluso'r broses o ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer, darparu dull effeithiol o adrodd ar berfformiad a chreu llwybr hawdd ei archwilio o'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r achosion.<br><br>Rhoddwyd y system rheoli achosion ar waith ym mis Ebrill 2012. |
| 4. Egluro a chyfleu beth yw ymarfer deintyddiaeth | Mae Adran 37 o Ddeddf Deintyddion 1984 yn cynnwys diffiniad clir o beth yw ymarfer deintyddiaeth, ac mae'r Cyngor yn seilio pob penderfyniad ynglŷn ag yw gwaith yn perthyn i ddeintyddiaeth ai peidio ar yr adran hon. Yn ôl Adran 37 o'r Ddeddf, (1) At ddibenion y Ddeddf hon, bydd ymarfer deintyddiaeth yn cynnwys cyflawni unrhyw lawdriniaeth neu roi unrhyw driniaeth, cyngor neu sylw, yn unol â'r hyn a gyflawnir neu a roddir fel arfer gan ddeintyddion. Rydym wedi cael barn arbenigol gan Athro Deintyddol blaenllaw ynglŷn ag a yw gwynnu dannedd yn dod o dan y diffiniad hwn. Ym marn yr Athro, mae'n amlwg bod angen cael rhywun sydd â nifer o'r sgiliau a ddysgir ar gyrsiau deintyddol israddedig i wynnu dannedd, felly mae'n amlwg yn perthyn i ymarfer deintyddiaeth. Mae'r Cyngor wedi ysgrifennu erthyglau i'w cyhoeddi mewn cylchgronau'r sector deintyddol ac wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan, gan egluro barn ystyriol y Cyngor ar y diffiniad o ymarfer deintyddol. Yn ogystal â hyn, mewn nifer o erlyniadau llwyddiannus am ymarfer deintyddiaeth anghyfreithlon, wedi i gyfreithwyr y diffynyddion weld cryfder y dystiolaeth i gefnogi barn y Cyngor maent yn pledio'n euog heb ymladd yr achos. |

# Darparu yn erbyn Cynllun Busnes 2011

parhad

## Addysg/Sicrhau Ansawdd/Ail-ddilysu

| Amcan | Darpariaeth yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Sicrhau bod ein gwaith o sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant deintyddol yn cyflawni ein diben statudol | Mae'r Cyngor yn sicrhau ansawdd 84 o raglenni ar draws 41 darparwr addysg a hyfforddiant ac yn derbyn nifer o geisiadau am raglenni newydd bob blwyddyn. Yn 2011, derbyniwyd wyth cais am raglenni newydd a chynhaliwyd 26 archwiliad o raglenni ac arholiadau terfynol. Roedd y canlyniadau'n cynnwys unarddeg rhaglen a oedd yn briodol i gael eu cofrestru, a saith oedd angen eu hail-archwilio cyn penderfynu a oedden nhw'n ddigonol neu beidio. Dyfarnwyd bod chwe rhaglen yn ddigonol yn y tymor byr. |
| 2. Datblygu fframwaith o ganlyniadau addysg sydd â'r nod o sicrhau addasrwydd i ymarfer ar gyfer cofrestru cychwynnol, arbenigol a pharhaus | Cytunwyd ar Ganlyniadau Dysgu Newydd ar gyfer addysg ddeintyddol israddedig yn 2011. Mae hyn yn cynrychioli newid cyfeiriad yn null y Cyngor o ddarparu addysg ddeintyddol. Mae prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu diwygio ar hyn o bryd i gefnogi'r dull newydd. |
| 3. Gweithredu cynllun ail-ddilysu ar gyfer deintyddion a chwblhau'r gwaith o ddatblygu cynllun ail-ddilysu ar gyfer gweddill y tîm deintyddol | Yn 2011, buom yn gweithio i ddatblygu cynllun ail-ddilysu ar gyfer deintyddion. Ar yr un pryd, dechreuwyd adolygu'r cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus cyfredol, er mwyn gweld sut mae angen gwella'r cynllun a'i gynnwys mewn cynllun ail-ddilysu maes o law. Lluniwyd rhaglen ymchwil a'i datblygu mewn perthynas â Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac ail-ddilysu. Cefnogwyd hyn trwy ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid. |
| 4. Datblygu rhestri arbenigol ar draws y tîm deintyddol sy'n atgyfnerthu dewisiadau cleifion a'r rhai ar y gofrestr a diogelwch cleifion mewn modd cadarnhaol | Mae yna 13 Arbenigedd ar gyfer Deintyddion ond nid oes rhai o gwbl ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol. Yn 2011, cytunwyd ar ganllawiau hysbysebu moesegol er mwyn sicrhau mwy o eglurhad ar ddefnyddio teitlau arbenigol.<br><br>Yn 2011, ystyriwyd cynnal adolygiad o arbenigeddau a threfn ar gyfer sicrhau ansawdd hyfforddiant arbenigol. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn y rhaglen bolisi ar gyfer 2012. |

# 3

## Gwasanaeth Cwynion Deintyddol

| Amcan | Darpariaeth yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Datrys cwynion deintyddol gan gleifion sy'n derbyn triniaeth breifat mewn ffordd deg, effeithlon, tryloyw ac amserol | Yn 2011, cofnododd y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol 1,708 o gwynion, 14.5% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd yn cymryd wyth niwrnod i'w datrys ar gyfartaledd. Caewyd 98% o'r achosion, gan gynnwys 418 achos a gafodd eu hatgyfeirio i'r broses addasrwydd i ymarfer a 213 a gafodd eu hatgyfeirio i'r GIG. Atgyfeiriwyd cyfran fechan ohonynt yn ôl i'r gweithiwr deintyddol proffesiynol i'w datrys yn lleol neu i sefydliad arall fel Sefydliad Iechyd Deintyddol Prydain, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a Chyngor ar Bopeth. O'r 13 cyfarfod panel a gynhaliwyd gennym, rhoddwyd 5 ad-daliad, 1 cyfraniad tuag at driniaeth adferol ac nid oedd unrhyw achos i'w ateb mewn 7 achos. |

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

## Cofrestru

Rhaid i bob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol gael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Er mwyn ymuno â'r gofrestr, rhaid i unigolion gynhyrchu tystiolaeth o gymwysterau gofynnol neu lwyddo mewn asesiad. Rhaid iddynt hefyd fodloni'r gofynion iechyd a chymeriad. Mae'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn cynnwys y canlynol:  technegydd deintyddol clinigol; hylenydd deintyddol; nyrs ddeintyddol; technegydd deintyddol; therapydd deintyddol; therapydd orthodontig.

Gellir gwneud cais i ymuno â'r gofrestr mewn sawl ffordd. Rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo un o'r canlynol:

- Cymhwyster cydnabyddedig o'r DU
- Cymhwyster cydnabyddedig o Ewrop
- Cymhwyster cydnabyddedig o'r tu allan i Ewrop
- Wedi pasio asesiad o addasrwydd i gofrestru gan banel asesu sgiliau a gwybodaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn achos unigolion wedi cymhwyso y tu allan i Ewrop ac sydd â statws unigolyn esempt; neu
- Wedi llwyddo yn yr Arholiad Cofrestru Tramor ar gyfer dein (tyddion tramor sydd wedi cymhwyso y tu allan i Ewrop nad ydynt yn elwa ar hawliau y Gymuned Ewropeaidd)

### Rhestri Arbenigwyr

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd yn cadw rhestri o ddeintyddion sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i'w galw eu hunain yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol.

Mae yna 13 rhestr arbenigol. Mae'r deintyddion ar y rhestri hyn wedi bodloni safonau gofynnol arbennig ar gyfer hyfforddiant. Mae'r llwybrau mynediad i'r rhestri hyn yn cael eu pennu gan reoliadau'r Cyngor a rheoliadau Ewropeaidd.

Er y gall unrhyw ddeintydd cofrestredig weithio mewn maes deintyddiaeth arbennig (fel orthodonteg neu lawdriniaeth ar y geg), dim ond y rhai sydd wedi dangos eu haddasrwydd i ddefnyddio'r teitl, naill ai drwy ymgeisio ar sail cymwysterau cydnabyddedig neu mewn rhai amgylchiadau drwy gael asesiad o brofiad, gwybodaeth a sgiliau, all ddefnyddio'r term "arbenigwr" yn y maes hwnnw.

**Cyfanswm yr unigolion ar y Gofrestr Deintyddion a'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ar ddiwedd 2011, wedi'u rhannu yn ôl rhyw**

| Grŵp cofrestru | Cyfanswm y bobl | Dynion | Menywod |
|---|---|---|---|
| Deintydd | 39,307 | 22,305 | 17,002 |
| Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol | 58,880 | 6,063 | 52,817 |
| **Cyfanswm** | **98,187** | **28,368** | **69,819** |

# 4


**Cyfanswm yr unigolion ar y gofrestr deintyddion a'r gofrestr gweithwyr gofal proffesiynol, wedi'u rhannu yn ôl teitl**

| Teitl | Cyfanswm y teitlau | Ychwanegwyd yn 2011 |
|---|---|---|
| Deintydd | 39,307 | 2,539 |
| Technegydd deintyddol clinigol | 226 | 102 |
| Hylenydd deintyddol | 5,962 | 357 |
| Nyrs ddeintyddol | 45,628 | 5,519 |
| Technegydd deintyddol | 6,666 | 294 |
| Therapydd deintyddol | 1,800 | 247 |
| Therapydd orthodonteg | 212 | 80 |
| **Cyfanswm** | **99,801** | **9,138** |

Noder: Mae'r tabl hwn yn cyfrif cyfanswm pob math o weithiwr deintyddol proffesiynol ar y gofrestr. Caiff unigolion sydd â mwy nag un teitl ei gyfrif unwaith ar gyfer pob teitl sydd ganddo, felly mae'r cyfanswm yn y tabl yn fwy na chyfanswm y bobl a gyfrifwyd yn y tabl blaenorol.

**Deintyddion ar y gofrestr ar ddiwedd 2011, yn ôl eu lleoliad cymhwyso**

| Lleoliad cymhwyso | Nifer |
|---|---|
| Wedi cymhwyso yn y DU | 28,122 |
| Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 6,723 |
| Wedi cymhwyso dramor (y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd) | 2,058 |
| Arholiad cofrestru tramor y DU | 2,404 |
| Cyfanswm | 39,307 |




# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad


**Deintyddion a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2011, yn ôl rhyw**

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Menywod | 1,411 |
| Dynion | 1,128 |
| **Cyfanswm** | **2,539** |





**Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ar y gofrestr ar ddiwedd 2011, yn ôl rhyw**

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Menywod | 52,817 |
| Dynion | 6,063 |
| **Cyfanswm** | **58,880** |




**Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2011, yn ôl rhyw**


| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Menywod | 5,764 |
| Dynion | 324 |
| **Cyfanswm** | **6,088** |



# 4

**Deintyddion a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2011, yn ôl eu lleoliad cymhwyso**

| Lleoliad cymhwyso | Nifer |
|---|---|
| Wedi cymhwyso yn y DU | 1,339 |
| Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 970 |
| Wedi cymhwyso dramor | 72 |
| Arholiad cofrestru tramor y DU | 158 |
| **Cyfanswm** | **2,539** |




**Manylion y Rhestri Arbenigol fel ag yr oeddynt ym mis Rhagfyr 2011**

| Arbenigedd | Nifer |
|---|---|
| Radioleg ddeintyddol a'r genau a'r wyneb | 28 |
| Iechyd cyhoeddus deintyddol | 118 |
| Endodonteg | 222 |
| Patholeg y geg a'r genau a'r wyneb | 31 |
| Meddygaeth y geg | 77 |
| Microbioleg y geg | 7 |
| Llawdriniaeth ar y geg | 757 |
| Orthodonteg | 1,297 |
| Deintyddiaeth bediatreg | 234 |
| Periodonteg | 305 |
| Prosthodonteg | 409 |
| Deintyddiaeth adferol | 301 |
| Deintyddiaeth gofal arbennig | 309 |
| **Cyfanswm** | **4,095** |

**Noder: gall y sawl sydd wedi cofrestru ymddangos ar fwy nag un rhestr arbenigol.**

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad


## Addasrwydd i Ymarfer

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol fodloni gofynion arbennig wrth gofrestru i gychwyn ac yna'n barhaus trwy gydol eu gyrfaoedd er mwyn ymarfer. Os bydd eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu yn sgil cwyn, collfarn neu rybudd, byddant o bosibl yn gorfod wynebu prosesau addasrwydd i ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Asesiadau

Mae atgyfeiriadau i adran addasrwydd i ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn mynd trwy broses asesu i gychwyn er mwyn pennu a oes angen iddynt gael eu hymchwilio ymhellach.

**Canran o Achosion a aseswyd o fewn 60 diwrnod yn 2011**




Mae'r ganran o achosion sy'n cyrraedd y targed o gael eu hasesu o fewn 60 diwrnod wedi cynyddu'n raddol. Y polisi brysbennu newydd ar gyfer pob achos a dderbynnir sy'n gyfrifol am y cynnydd mewn perfformiad yn y pedwerydd chwarter.


### Pwyllgor Ymchwilio

Bydd materion sy'n awgrymu nad yw deintydd yn addas i ymarfer yn cael eu hatgyfeirio i banel Pwyllgor Ymchwilio (PY). Mae panel y PY yn cynnwys gweithwyr cofrestredig a lleygwyr, a benodwyd trwy broses sy'n annibynnol ar y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gallai Pwyllgor Ymchwilio benderfynu nad oes angen gweithredu pellach neu fod llythyr cynghori neu rybudd yn ddigonol. Mewn achosion mwy difrifol o bosibl, gall panel y PY atgyfeirio'r mater i un o'r tri Phwyllgor Ymarfer: Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol; neu'r Pwyllgor Iechyd am wrandawiad ffurfiol.

# 4


Bydd gweithiwr cofrestredig a atgyfeirir i Bwyllgor Ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o aelodau lleyg a chofrestredig mewn gwrandawiad ffurfiol. Bydd gan y Cyngor a'r gweithiwr cofrestredig yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ystod pob cam o'n gweithdrefnau, gall y Pwyllgor Gorchmynion Interim atal gweithwyr cofrestredig o'r gofrestr neu ddefnyddio amodau i gyfyngu ar eu hymarfer.

**Canran o'r achosion sy'n cyrraedd y PY o fewn chwe mis 2011**




Bu gostyngiad bychan yn nifer yr achosion sy'n cyrraedd pwyllgor yn ystod 2011, to 'gan fod y tîm addasrwydd i ymarfer yn prosesu achosion IC hŷn, gan gael effaith effaith ar ffigurau perfformiad ar gyfer y IC.

**Nifer yr achosion nad sy'n cyrraedd y PY o fewn chwe mis 2011**




Bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion byw sydd wedi rhagori ar y targed o chwe mis ar ddiwedd pob chwarter yn 2011. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o bwyllgorau sy'n cael eu cynnal a gwelliannau i reoli achosion IC.


# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad

## Gwrandawiadau

Mewn achosion mwy difrifol o bosibl, gallai Pwyllgor Ymchwilio benderfynu atgyfeirio'r mater i un o'r tri phwyllgor Ymarfer. Bydd gweithwyr cofrestredig a atgyfeirir i Bwyllgor Ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o aelodau lleyg a chofrestredig mewn gwrandawiad ffurfiol. Bydd gan y Cyngor a'r gweithiwr cofrestredig yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ystod pob cam o'n gweithdrefnau, gall y Pwyllgor Gorchmynion Interim atal gweithwyr cofrestredig o'r gofrestr neu ddefnyddio amodau i gyfyngu ar eu hymarfer.

**Canran o achosion sydd o fewn y targed o fynd gerbron y PY a chael gwrandawiad o fewn naw mis yn 2011**




Er bod y ganran o achosion yn cael eu clywed o fewn naw mis wedi aros yn gymharol isel yn ystod 2011, bu gwelliant mewn pedwar chwarter. Disgwylir i'r buddsoddi yn y tîm gwrandawiadau eleni, gan gynnwys mwy o staff a mwy o gapasiti ar gyfer cynnal gwrandawiadau arwain at welliannau yn y nifer o achosion sy'n cyrraedd y targed.

# Aelodau'r Cyngor

# 5

Mae'r Cyngor yn cynnwys 24 o aelodau a benodwyd ym mis Hydref 2009. Mae yna 12 o Aelodau cofrestredig a 12 o Aelodau lleyg. Ar 5 Mai 2011, ymddiswyddodd Alison Lockyer fel Cadeirydd ac fel aelod o'r Cyngor. Etholwyd Derek Prentice yn Ddirprwy Gadeirydd, a bu yn y rôl hon rhwng 20 Mai 2011 a 21 Medi 2011. Ar 22 Medi 2011, etholodd y Cyngor Kevin O'Brien yn Gadeirydd. Dyma Aelodau'r Cyngor:

| Aelodau Cofrestredig | Aelodau Lleyg | Prif Swyddogion Deintyddol ** |
|---|---|---|
| Elizabeth Davenport | Grace Alderson | Barry Cockcroft (Lloegr) |
| Mary Dodd | Rosemary Carter | Donncha O'Carolan (Gogledd Iwerddon) |
| Helen Falcon | Peter Catchpole | Margie Taylor (yr Alban) |
| Hazel Fraser | Robin Field-Smith | David Thomas (Cymru) |
| Janet Goodwin | Alan MacDonald | |
| Wakkas Khan | David Murphy | |
| Anthony Kilcoyne | Grahame Owen | |
| Alison Lockyer[1] | Derek Prentice | |
| Kevin O'Brien | Neil Stevenson | |
| Mabel Slater | Linda Stone | |
| David Smith | Anne Marie Telford | |
| Denis Toppin | Carol Varlaam | |

*Ymddiswyddodd 5 Mai 2011
**Gwahoddir Prif Swyddogion Deintyddol i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, ond aelodau cyswllt ydynt ac nid oes ganddynt bleidlais ac ni chânt eu cyfrif yn y cworwm.

Cefnogir Cyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan bedwar pwyllgor anstatudol sefydlog. Ym mis Mai 2011, cymeradwyodd y Cyngor strwythur pwyllgorau newydd a ddaeth i rym ar ôl cyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2011. Dyma'r pwyllgorau:

- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes
- Y Pwyllgor Cynghori ar Bolisi
- Y Pwyllgor Tâl

# Aelodau'r Cyngor

parhad

Dyma'r pwyllgorau oedd yn bodoli cyn mis Medi 2011:

- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgor Polisi Addasrwydd i Ymarfer
- Y Pwyllgor Safonau
- Y Pwyllgor Addysg (tan fis Rhagfyr 2011)
- Y Pwyllgor Cofrestru
- Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol

Yn ogystal, bu gweithgorau'n ymgymryd â gwaith manwl ar ddatblygu mentrau penodol:

- Gweithgor Strwythur Pwyllgorau
- Gweithgor Ail-ddilysu
- Grŵp Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol 'dan hyfforddiant'
- Gweithgor Adolygu Buddion Gweithwyr
- Grŵp Arfarnu Aelodau'r Cyngor
- Gweithgor Cwmpas Ymarfer
- Gweithgor Safonau

Caiff y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol ei gynorthwyo gan fwrdd cynghori sy'n cynnwys pum aelod o'r Cyngor a phedwar aelod allanol.

## Pwyllgorau Statudol y Cyngor

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfrifoldeb cyffredinol i ymdrin â honiadau sy'n ymwneud â diffyg addasrwydd i ymarfer aelodau o'r proffesiwn deintyddol.

Mae gan y Cyngor chwe phwyllgor statudol, fel y nodwyd yn adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984, i'w gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswydd statudol fel rheoleiddiwr gofal iechyd. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau panel annibynnol o bobl leyg, deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol. Nid yw aelodau'r Cyngor yn aelodau o'r pwyllgorau statudol, ond mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Dyma'r pwyllgorau:

- Y Pwyllgor Gorchmynion Interim
- Y Pwyllgor Ymchwilio
- Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol
- Y Pwyllgor Iechyd
- Y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol
- Y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru

# 5

Penodir y pwyllgorau hyn gan Bwyllgor Penodiadau sy'n cynnwys wyth aelod lleyg nad ydynt yn aelodau o'r Cygnor a gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni unrhyw swyddogaeth yn ymwneud â phenodi aelodau pwyllgorau statudol, gan gynnwys recriwtio, dethol, arfarnu a disgyblu'r cyfryw aelodau.

## Presenoldeb, ffioedd a threuliau aelodau

| Aelod o'r Cyngor | Presenoldeb yn y Cyngor/Pwyllgor/Gweithgor/Grŵp Gorchwyl a Gorffen | | Ffi'r Cadeirydd £ | Ffioedd yr Aelodau £ | Treuliau'r Aelodau £ | Trethi ac YG £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grace Alderson | Y Cyngor | 5/5 | | 9,167 | 3,997 | 3,297 | 16,461 |
| | Grŵp Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol 'dan hyfforddiant' | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Cofrestru | 3/3 | | | | | |
| | Pwyllgor Tâl | 2/2 | | | | | |
| | Gweithgor Adolygu Safonau | 3/3 | | | | | |
| | Grŵp Arfarnu Aelodau'r Cyngor | 4/4 | | | | | |
| Rosemary Carter | Y Cyngor | 5/5 | | 9,504 | 4,044 | 1,232 | 14,780 |
| | Pwyllgor Archwilio (cyn mis Medi) | 5/5 | | | | | |
| | Pwyllgor Archwilio (ar ôl mis Medi) | 1/1 | | | | | |
| | Gweithgor Strwythur Pwyllgorau | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Tâl | 2/2 | | | | | |
| Peter Catchpole | Y Cyngor | 3/5 | | 5,229 | 841 | 103 | 6,173 |
| | Pwyllgor Archwilio (ar ôl mis Medi) | 1/1 | | | | | |
| | Pwyllgor Safonau | 1/2 | | | | | |
| Elizabeth Davenport | Y Cyngor | 4/5 | | 3,569 | 181 | 133 | 3,883 |
| | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Cofrestru | 3/3 | | | | | |
| Mary Dodd | Y Cyngor | 5/5 | | 5,034 | 2,602 | 2,072 | 9,708 |
| | Grŵp Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol 'dan hyfforddiant' | 2/2 | | | | | |
| | Grŵp Adolygu Buddion Gweithwyr | 2/3 | | | | | |
| | Pwyllgor Cyllid ac AD | 3/4 | | | | | |
| | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes | 1/1 | | | | | |
| | Pwyllgor Cofrestru | 2/3 | | | | | |
| Helen Falcon | Y Cyngor | 5/5 | | 6,780 | 344 | 607 | 7,731 |
| | Pwyllgor Archwilio (ar ôl Medi) | 1/1 | | | | | |
| | Pwyllgor Addysg | 9/9 | | | | | |
| | Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol 'dan hyfforddiant' | 2/2 | | | | | |

# Aelodau'r Cyngor

## parhad

| Aelod o'r Cyngor | Presenoldeb yn y Cyngor/Pwyllgor/Gweithgor/Grŵp Gorchwyl a Gorffen | | Ffi'r Cadeirydd £ | Ffioedd yr Aelodau £ | Treuliau'r Aelodau £ | Trethi ac YG £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Robin Field-Smith | Y Cyngor | 5/5 | | 7,723 | 1,272 | 777 | 9,772 |
| | Gweithgor Strwythur Pwyllgorau | 1/2 | | | | | |
| | Grŵp Adolygu Buddion Gweithwyr | 3/3 | | | | | |
| | Pwyllgor Cyllid ac AD | 4/4 | | | | | |
| | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes | 1/1 | | | | | |
| | Gweithgor Cwmpas Ymarfer | 3/3 | | | | | |
| Hazel Fraser | Y Cyngor | 5/5 | | 8,758 | 3,440 | 1,283 | 13,481 |
| | Pwyllgor Archwilio (ar ôl Medi) | 1/1 | | | | | |
| | Gweithgor Strwythur Pwyllgorau | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Polisi Addasrwydd i Ymarfer | 3/3 | | | | | |
| | Grŵp Arfarnu Aelodau'r Cyngor | 4/4 | | | | | |
| Janet Goodwin | Y Cyngor | 5/5 | | 8,747 | 6,454 | 2,795 | 17,996 |
| | Grŵp Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol 'dan hyfforddiant' | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes | 1/1 | | | | | |
| | Pwyllgor Cofrestru | 3/3 | | | | | |
| | Gweithgor Adolygu Safonau | 3/3 | | | | | |
| | Grŵp Arfarnu Aelodau'r Cyngor | 4/4 | | | | | |
| Wakkas Khan | Y Cyngor | 4/5 | | 6,051 | 5,968 | 730 | 12,749 |
| | Pwyllgor Tâl | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Archwilio (cyn mis Medi) | 5/5 | | | | | |
| Anthony Kilcoyne | Y Cyngor | 5/5 | | 4,435 | 3,555 | 3,145 | 11,135 |
| | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi | 0/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Safonau | 2/2 | | | | | |
| | Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 1/4 | | | | | |
| Alison Lockyer (wedi ymddiswyddo 5 Mai 2011) | Y Cyngor | 1/1 | 25,227 | | 4,648 | 1,037 | 30,912 |
| | Grŵp Arfarnu Aelodau'r Cyngor | 1/1 | | | | | |
| Alan MacDonald | Y Cyngor | 5/5 | | 12,205 | 9,555 | 3,830 | 25,590 |
| | Pwyllgor Archwilio (cyn mis Medi) | 5/5 | | | | | |
| | Pwyllgor Archwilio (ar ôl mis Medi) | 1/1 | | | | | |
| | Gweithgor Ail-ddilysu | 4/4 | | | | | |
| David Murphy | Y Cyngor | 5/5 | | 4,842 | 8,206 | 7,248 | 20,296 |
| | Grŵp Adolygu Buddion Gweithwyr | 3/3 | | | | | |
| | Pwyllgor Cyllid ac AD | 4/4 | | | | | |
| | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes | 0/1 | | | | | |
| Kevin O'Brien | Y Cyngor | 5/5 | 10,242[2] | 6,403 | 10,149 | 3,692 | 30,486 |
| | Pwyllgor Addysg[1] | 7/7 | | | | | |
| | Gweithgor Strwythur Pwyllgorau | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Tâl | 0/2 | | | | | |

# 5

| Aelod o'r Cyngor | Presenoldeb yn y Cyngor/Pwyllgor/Gweithgor/Grŵp Gorchwyl a Gorffen | | Ffi'r Cadeirydd £ | Ffioedd yr Aelodau £ | Treuliau'r Aelodau £ | Trethi ac YG £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grahame Owen | Y Cyngor<br>Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes<br>Pwyllgor Polisi Addasrwydd i Ymarfer<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 5/5<br>1/1<br>4/4<br>4/4 | 21,074[3] | 8,559 | 2,373 | 1,385 | 12,317 |
| Derek Prentice | Y Cyngor<br>Grŵp Adolygu Buddion Gweithwyr<br>Pwyllgor Cyllid ac AD<br>Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 5/5<br>3/3<br>4/4<br>2/2<br>4/4 | | 5,199 | 355 | 269 | 26,897 |
| Mabel Slater | Y Cyngor<br>Grŵp Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol 'dan hyfforddiant'<br>Pwyllgor Addysg<br>Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 5/5<br>1/2<br>8/9<br>2/2<br>4/4 | | 6,567 | 5,389 | 2,741 | 14,697 |
| David Smith | Y Cyngor<br>Grŵp Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol 'dan hyfforddiant'<br>Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Gweithgor Ail-ddilysu<br>Pwyllgor Safonau<br>Gweithgor Adolygu Safonau | 5/5<br>2/2<br>2/2<br>3/4<br>2/2<br>3/3 | | 11,287 | 5,984 | 3,182 | 20,453 |
| Neil Stevenson | Y Cyngor<br>Pwyllgor Addysg<br>Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Grŵp Arfarnu Aelodau'r Cyngor | 5/5<br>8/9<br>2/2<br>4/4 | | 8,779 | 6,826 | 4,688 | 20,293 |
| Linda Stone | Y Cyngor<br>Pwyllgor Polisi Addasrwydd i Ymarfer<br>Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Gweithgor Strwythur Pwyllgorau | 5/5<br>3/3<br>2/2<br>1/2 | | 7,120 | 3,155 | 1,989 | 12,264 |
| Anne Marie Telford | Y Cyngor<br>Pwyllgor Safonau<br>Gweithgor Adolygu Safonau<br>Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 5/5<br>2/2<br>3/3<br>2/2<br>3/4 | | 7,164 | 6,168 | 4,439 | 17,771 |

# Aelodau'r Cyngor

## parhad

| Aelod o'r Cyngor | Presenoldeb yn y Cyngor/Pwyllgor/Gweithgor/Grŵp Gorchwyl a Gorffen | | Ffi'r Cadeirydd £ | Ffioedd yr Aelodau £ | Treuliau'r Aelodau £ | Trethi ac YG £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Denis Toppin | Y Cyngor | 5/5 | | 13,080 | 11,117 | 4,298 | 28,495 |
| | Pwyllgor Archwilio (cyn mis Medi) | 5/5 | | | | | |
| | Gweithgor Strwythur Pwyllgorau | 2/2 | | | | | |
| | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes | 1/1 | | | | | |
| | Gweithgor Ail-ddilysu | 4/4 | | | | | |
| | Gweithgor Adolygu Safonau | 3/3 | | | | | |
| Carol Varlaam | Y Cyngor | 5/5 | | 6,836 | 220 | 92 | 7,148 |
| | Pwyllgor Polisi Addasrwydd i Ymarfer | 3/3 | | | | | |
| | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi | 2/2 | | | | | |
| | Gweithgor Ail-ddilysu | 4/4 | | | | | |

[1]Ymddiswyddodd Kevin O'Brien o'r Pwyllgor Addysg wedi iddo gael ei ethol yn Gadeirydd ar 22 Medi 2011
[2]Rhan o gylch gwaith prif gyflogwr Kevin O'Brien, Prifysgol Manceinion
[3]Fel Dirprwy Gadeirydd rhwng 20 Mai a 21 Medi 2011

### Ffioedd a threuliau'r aelodau

Mae'r ffigurau hyn yn dangos y ffioedd a'r treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011. Telir ffioedd a threuliau i Aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau, gweithgorau a byrddau cynghori'r Cyngor. Nid yw'r Prif Swyddogion Deintyddol yn hawlio ffioedd am eu gwaith i'r Cyngor.

Daw Aelodau'r Cyngor o bob cwr o'r DU. Mae eu ffioedd a'u treuliau'n adlewyrchu nifer y cyfarfodydd a fynychwyd a phellteroedd teithio gwahanol yr unigolion dan sylw. Mae'r dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yr Aelodau yn effeithio ar y ffigurau hyn.

### Ffioedd Aelodau

Defnyddir y system Talu Wrth Ennill i dalu ffioedd aelodau'r Cyngor. Didynnir treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr cyflogedig. Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr, sydd wedi'u cynnwys yn y ffioedd aelodau a nodwyd. Mae ffioedd Aelodau'r Cyngor yn drethadwy, oni bai bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cyflwyno cod NT (dim treth).

### Treuliau

Ymdrinnir â threuliau Aelodau'r Cyngor trwy drefniant PSA blynyddol (Cytundeb Setliad Talu Wrth Ennill) gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Datgelir treuliau'r Aelodau o dan y PSA. Caiff y dreth ar dreuliau ei grosio i fyny wedi ystyried nifer yr aelodau sy'n dalwyr trethi cyfradd uwch neu gyfradd sylfaenol. Mae Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn daladwy ar y treuliau ac ar y trethi sydd wedi'u grosio i fyny. Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n talu'r dreth PSA a'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

# Rheolaeth

# 6

## Tâl

Yn 2011, roedd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys:

- Evlynne Gilvarry, Prif Weithredwr a Chofrestrydd
- Mike Browne, Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebiadau
- Frances Low, Cyfarwyddwr Llywodraethu (penodwyd 4 Ionawr 2011)
- Neil Marshall, Cyfarwyddwr Rheoleiddio (penodwyd 14 Chwefror 2011)
- Graham Masters, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (penodwyd 1 Mawrth 2011)

| | **Enillion 2011 £'000oedd** | **Enillion 2010 £'000oedd** | **Pensiwn Cronnus 2011 £'000oedd** | **Pensiwn Cronnus 2010 £'000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| **Evlynne Gilvarry**<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd | 132* | 28** | 25 | – |
| **Mike Browne**<br>Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebiadau | 100* | 93 | 22 | – |
| **Graham Masters**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 80 | – | 8 | – |
| **Neil Marshall**<br>Cyfarwyddwr Rheoleiddio | 93 | – | 5 | – |
| **Frances Low**<br>Cyfarwyddwr Llywodraethu | 96 | – | – | – |
| | **501** | **121** | **60** | **–** |

*Dyma'r taliadau a gyflwynwyd i Evlynne Gilvarry a Mike Browne yn lle gwyliau blynyddol na chafodd eu cymeryd, mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghyfanswm eu hennillion unigol:

Evlynne Gilvarry £11,421
Mike Browne £1,865

** At ddibenion cymharu, roedd cyflog Evelynne Gilvarry yn £120,000 yn 2010.

# Rheolaeth

parhad

## Materion Staff


Ar ddiwedd 2011, roedd y Cyngor yn cyflogi 205 aelod o staff (2010:172). Daw'r cynnydd hwn o ganlyniad i ailstrwythuro ac ehangu ein hadran addasrwydd i ymarfer/gwrandawiadau, a oedd â 76 aelod o staff mewn swydd ar ddiwedd 2011 (2010: 49).  Yn ogystal â hyn, rydym wedi lleihau ein dibynniaeth ar staff interim a dros dro, trwy gyflogi gweithwyr parhaol mwy cost effeithiol yn eu lle.

### Proffil gwasanaeth staff

Mae nifer y bobl â llai nag un mlynedd o wasanaeth yn adlewyrchu'r ehangu diweddar a chyfradd trosiant hanesyddol. Yn 2011, gwelwyd trosiant staff (a gyfrifwyd fel ymadawyr am bob rheswm wedi'u rhannu gyda nifer cyfartalog y staff mewn swydd) o 14.9% (2010: 32.9%).

**Hyd gwasanaeth staff y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| 10 + blwyddyn | 15 |
| 5-10 blwyddyn | 35 |
| 1-5 blwyddyn | 102 |
| Llai na blwyddyn | 53 |
| **Cyfanswm** | **205** |




### Oedran

Mae 60% o'n gweithwyr yn fenywod (2010: 64%). Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o bobl hŷn yn ein gweithlu, gydag 8.3% yn unig o'r gweithlu'n bobl dros 55 oed (2010: 6.3%)


### Ethnigrwydd

Daw ein gweithlu o Lundain Fwyaf yn bennaf, ac awgryma'r data sydd ar gael bod ethnigrwydd staff y Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig y ddinas. Cesglir data ethnigrwydd pan benodir unigolyn, a chaiff staff eu hatgoffa i'w ddiweddaru bob blwyddyn.

# 6

**Tarddiad ethnig a ddatganwyd gan staff y Cyngor ym mis Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| Gwell gen i beidio â dweud | 46 |
| Gwyn | 105 |
| Asiaidd | 26 |
| Du Affricanaidd/Caribïaidd | 21 |
| Arall | 7 |
| **Cyfanswm** | **205** |




## Cynnwys Gweithwyr

Mae gan y Cyngor fforwm staff etholedig. Yn 2011, cytunwyd ar gyfansoddiad diwygiedig a phenodwyd fforwm newydd i gynrychioli staff ym mhob tîm a lleoliad. Derbyniodd aelodau newydd y fforwm staff 2 ddiwrnod o hyfforddiant ar gynrychioli staff ac mae'r fforwm yn cyfarfod bob yn ail fis. Caiff y cyfarfodydd eu cadeirio gan aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg staff ddwywaith y flwyddyn ac yn llunio cynllun gweithredu cynhwysfawr yn seiliedig ar y canfyddiadau. Defnyddir cyfarfodydd staff rheolaidd i adrodd ar gynnydd.

Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal bob chwarter o leiaf. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol ar unrhyw bwnc.

Gofynnir i bob rheolwr gasglu adborth dienw gan eu tîmau staff am ei berfformiad yn ystod y flwyddyn. Caiff hyn ei gynnwys fel rhan o'r system arfarnu perfformiad.

Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd llawn o'r fewnrwyd i gyfathrebu'n fewnol ac mae yna gyfleoedd i staff fynegi eu barn. Cynhyrchir cylchlythyr mewnol bob mis, gyda diweddariadau amlach pan fo angen.

Pan fo newidiadau'n cael eu cynnig neu eu trafod a allai effeithio ar y staff, cynhelir cyfarfodydd ymgynghorol, p'un ai oes angen ymgynghoriad ffurfiol neu beidio. Trwy wneud hyn mae'r Weithrediaeth yn gallu ystyried barn staff wrth wneud penderfyniadau am systemau a strwythurau strategol.

# Rheolaeth

parhad

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

### Cleifion a'r cyhoedd

Yn 2011, cytunodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion a lluniwyd rhaglen o weithgareddau perthnasol. Cominisynwyd arolwg o sampl gynrychioliadol o gleifion a chyhoedd ledled y DU er mwyn helpu i lywio'n gwaith.

Darparodd yr arolwg dystiolaeth am fesurau ymarferol sy'n hybu hyder cleifion mewn deintyddiaeth a chonsensws ynghylch pwysigrwydd cyfathrebu clir wrth drafod triniaethau posibl a gweinyddu'n effeithlon. Cafodd yr arolwg cleifion a chyhoedd ei gynnal gan COMRES ym mis Ebrill 2011 a chafodd y canfyddiadau eu cynnwys yn yr adolygiadau parhaus o bolisïau rheoleiddio, gan gynnwys yr adolygiad safonau.

Gwnaethom gynhyrchu ein taflen wybodaeth i gleifion, Gwenwch, yn y pedair iaith fwyaf cyffredin yn y DU ar ôl Saesneg - Wrdw, Bengali, Tsieineeg a Phwnjabeg. Mae fersiwn Cymraeg i'w gael hefyd. Yn y gwanwyn, cyhoeddwyd taflen wybodaeth i gleifion ar wynnu dannedd, ochr yn ochr ag ymgyrch gyhoeddusrwydd ar bwysigrwydd sicrhau bod triniaethau o'r fath yn cael eu gwneud gan ddeintydd neu therapydd neu hylenydd deintyddol sy'n gweithio ar orchymyn deintydd.

### Gweithwyr cofrestredig

Yn 2011, comisiynodd y Cyngor arolwg o weithwyr cofrestredig er mwyn llywio'n gwaith ar adolygu'r safonau, y cwmpas ymarfer a datblygiad proffesiynol parhaus. Cynhaliwyd yr arolwg ym misoedd Mai a Mehefin  2011 gan Ipsos MORI.

Yn 2011, cafodd y Gazette ei ail-lansio- cyhoeddiad y Cyngor ar gyfer y tîm deintyddol. Un o'r amcanion allweddol oedd sicrhau bod y Gazette yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol, e.e. pwyntiau dysgu yn sgil penderfyniadau ar addasrwydd i ymarfer.

Cynhyrchwyd taflen ar-lein o'r enw *Advice for overseas qualified dental professionals*, er mwyn egluro'r gofynion cofrestru i'r rhai oedd am weithio yn y DU.

Cynhaliwyd pum digwyddiad i weithwyr cofrestredig yn 2011, yn Belfast, Caeredin, Birmingham, Caerdydd a Newcastle. Roeddent yn cynnwys gweithdai ymchwil ar yr adolygiad o'r safonau a'r adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Ymatebodd bron i 6,000 o weithwyr cofrestredig i arolwg ar-lein a gynhaliwyd fel rhan o'n hadolygiad o'n cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Cynhaliwyd yr arolwg gan ERS: Research. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan fwy o waith ymchwil, gan gynnwys gwerthusiad risg ymarfer deintyddiaeth yn y DU.

Roeddem hefyd yn gofyn am farn pobl ar:

- Y cynigion i foderneiddio'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r adolygiad parhaus o broses addasrwydd i ymarfer y Cyngor.
- Canllawiau ar gyfer Cofrestru Dros Dro

Buom yn siarad mewn cyfarfodydd â'r cyhoedd 41 o weithiau yn 2011. Roedd y themâu poblogaidd yn cynnwys diweddariad cyffredinol ar waith, safonau ac addasrwydd i ymarfer y Cyngor.

# 6

## Rhanddeiliaid eraill

Yn 2011, parhawyd i gynnal rhaglen sylweddol o gyfarfodydd â rhanddeiliaid, gan gynnwys ymgysylltu'n amlach â rhanddeiliaid yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac adroddir ar ganlyniadau'r rhain ym mhob un o gyfarfodydd y Cyngor erbyn hyn.

Yn hydref 2011, cynhaliwyd digwyddiadau pellach yn Llundain a Chaeredin fel rhan o'r gwaith o adolygu Safonau. Cynhaliwyd y rhain er mwyn ymgysylltu â phobl allweddol o gymdeithasau proffesiynol, sefydliadau amddiffyn, sefydliadau addysg a'r GIG (gan gynnwys cyfarwyddwyr ac ymgynghorwyr clinigol ym maes iechyd cyhoeddus deintyddol).

## Caffael

Mae ein polisi caffael yn nodi ein hamcanion caffael a sut ydym yn bwriadu eu cyflawni.

Mae'r gwerthoedd sylfaenol a fydd yn llywio ein gwaith caffael yn cynnwys ein hymrwymiad i werth am arian, cynaliadwyedd, cydraddoldeb, iechyd a diogelwch ac amrywiaeth o ran cyflenwyr.

Wrth gynnal ei waith caffael, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, yr arferion gorau a'r codau moesegol perthnasol a amlinellwyd gan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi, canllawiau Swyddfa'r Cabinet a Gwasanaeth Caffael y Llywodraeth, ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â'u hegwyddorion sylfaenol sef bod yn ddiduedd, annibyniaeth ac uniondeb.

Bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ceisio darparu mwy am lai yn yr hinsawdd economaidd gyfredol trwy raglen barhaus o arbedion effeithlonrwydd (tra'n sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol).

## Iechyd a diogelwch

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd iach lle nad oes neb yn cael ei niweidio. Caiff materion Iechyd a Diogelwch eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Rheoli Gweithredol a Phwyllgor Iechyd a Diogelwch y Cyngor, a gafodd ei ailstrwythuro yn 2011.

Ni ddatgelodd asesiad risg tân a gynhaliwyd yn 2011 unrhyw broblemau mawr. Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu amgylchedd diogel i'n staff a'n hymwelwyr, bydd asesiad risg cyffredinol yn cael ei gynnal yn 2012.

Rhoddwyd system iechyd a diogelwch e-ddysgu ar waith yn 2011 i ddarparu hyfforddiant ac asesiadau hygyrch i staff.

## Materion Amgylcheddol

Rydym yn ailgylchu'r holl bapur gwastraff cyfrinachol a gwastraff cymysg. Rhaid i'n contractwyr wneud gwaith cynnal a chadw ataliol yn ôl amserlen er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd peiriannau'n torri, a hefyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu amgylchedd diogel i staff

# Rheolaeth

parhad

ac ymwelwyr. Rhaid i bob un o'n contractwyr fynd trwy broses fetio annibynnol lem, sy'n cynnwys adolygiad blynyddol o'u hasesiadau risg a'u datganiadau dull.  Caiff eu perfformiad hefyd eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni rhwymedigaethau eu contract.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff newydd ac yn defnyddio porth e-ddysgu i wneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn gallu cael gafael ar hyfforddiant gloywi. Darparwyd hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod y cyfnod ymsefydlu i aelodau newydd o'r panel a benodwyd yn 2011.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i gynnal adolygiad cydraddoldeb, a mabwysiadwyd cynllun gweithredu manwl yn sgil hyn. Caiff cynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu ei adrodd i'r Cyngor.

# Adolygiad Ariannol

# 7

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011

### Dadansoddiad o Incwm a Gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio

Mae'r cyfrifon ar dudalennau 43 i 46 yn dangos ein hincwm a'n gwariant mewn fformat cyfrifon safonol. Er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid mae'r wybodaeth yn y tabl canlynol yn dangos incwm a gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio.

| | 2011 £'000 | 2011 £'000 | 2010 £'000 | 2010 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Cofrestru | 29,841 | | 22,425 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 807 | | 1,925 | |
| Incwm gweithredu arall | 47 | | 12 | |
| | | **30,695** | | **24,362** |
| **Gwariant** | | | | |
| **Gweithgareddau rheoleiddio:** | | | | |
| Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau | 14,432 | | 12,709 | |
| Cofrestru | 2,490 | | 2,371 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 796 | | 1,936 | |
| Rheoli Polisi a Rhanddeiliaid | 1,604 | | 1,473 | |
| Llywodraethu | 1,505 | | 1,056 | |
| Sicrhau Ansawdd | 760 | | 668 | |
| Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 546 | | 319 | |
| | | **22,133** | | **20,532** |
| **Gweithgareddau cefnogi:** | | | | |
| Cyllid, AD a Phrif Swyddog Gweithredol | 2,732 | | 2,918 | |
| Gwasanaethau Swyddfa a Swyddfeydd | 1,643 | | 1,648 | |
| Technoleg Gwybodaeth | 1,638 | | 1,217 | |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 620 | | 481 | |
| | | **6,633** | | **6,264** |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **28,766** | | **26,796** |
| Incwm o Fuddsoddiadau | | 235 | | 138 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | **2,164** | | **(2,296)** |
| Treth | | 63 | | (132) |
| **Gwarged/(Diffyg) a gadwyd ar ôl treth** | | **2,227** | | **(2,428)** |

# Adolygiad Ariannol

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011

Ariennir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bennaf gan ffioedd a delir gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gorfod cofrestru gyda'r Cyngor, yn unol â'r Ddeddf Ddeintyddion, er mwyn ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol hefyd yn talu ffioedd er mwyn cadw eu henwau ar ein rhestri arbenigwyr. Yn 2011, codwyd y ffi cadw blynyddol o £438 i £576 i ddeintyddion ac o £96 i £120 i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol. Hwn oedd y cynnydd cyntaf ers 2007, a theimlwyd bod angen gwneud hyn er mwyn ariannu gwaith rheoleiddio ychwanegol a fyddai'n codi o'r cynnydd mewn achosion addasrwydd i ymarfer, gan barhau i gynnal lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn.

Yn dilyn diffyg o £2.4 miliwn yn 2010, cynhyrchwyd gwarged o £2.2 miliwn yn y flwyddyn hyd 31 Rhagfyr 2011, gan gynyddu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i £13.6 miliwn (2010 - £11.2 miliwn). O ganlyniad i'r gwariant pellach sydd ei angen i gael gwared â'r ôl-groniad o achosion addasrwydd i ymarfer a gwella'n prosesau, disgwylir y bydd diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2012. Bydd hyn yn cael ei ariannu o'r cynnydd yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2011.

### Incwm:

Cynyddodd cyfanswm yr incwm yn ystod y flwyddyn ariannol i £30.7 miliwn (2010 - £24.4 miliwn). Roedd y cynnydd yn bennaf o ganlyniad i'r rhesymau canlynol:

- Incwm ychwanegol o £6.5 miliwn a ddaeth o ffioedd cadw blynyddol uwch.
- Incwm o £0.8 miliwn a ddaeth o ganlyniad i 2,539 Deintydd a 6,599 Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol ychwanegol yn ymuno â'r gofrestr yn 2011.
- 196 enw newydd ar y Rhestr Arbenigwyr, a gyflwynodd incwm ychwanegol o £0.1 miliwn.

### Gwariant:

Yn ystod 2011, gwelwyd newidiadau i'r strwythur ac i gyfrifoldeb sefydliadol rhai swyddogaethau yn sgil sefydlu tîm gweithredol newydd. Mae gwariant 2010 yn ôl swyddogaeth wedi'u hail-nodi i ddangos y costau a adroddwyd ar yr un fformat â chostau 2011.

Cynyddodd cyfanswm y gwariant i £28.8 miliwn yn 2011 (2010 - £26.8 miliwn) oherwydd y rhesymau canlynol:-

- Er i gostau cyfreithiol a phroffesiynol leihau, cynyddodd y costau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer i £7.5 miliwn (2010 - £7.1 miliwn), yn bennaf am fod hyd cyffredinol pob achos wedi cynyddu o 3 i 4 diwrnod.
- Cynyddodd ffioedd a threuliau cyfarfodydd i £5.5 miliwn (2010 - £4.7 miliwn), yn bennaf am fod nifer diwrnodau'r gwrandawiadau a drefnwyd wedi cynyddu o 582 i 766.
- Cynyddodd costau staff i £10.1 miliwn (2010 - £9.2 miliwn), yn bennaf o ganlyniad i'r gwaith o ailstrwythuro'r gyfarwyddiaeth Reoleiddio. Cynyddodd costau pensiwn i £1.0 miliwn (2010 - £0.7 miliwn) sy'n adlewyrchu'r nifer uwch o aelodau ar gyflogau uwch a recriwtiwyd i'r cynllun yn 2010 a 2011, o gymharu â nifer yr aelodau ar yr un lefel o gyflog yn 2010.

# 7

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011

- Cynyddodd costau swyddfa i £1.4 miliwn (2010 - £1.3 miliwn) o ganlyniad i gyfraddau busnes uwch a ffioedd penseiri sy'n deillio o'n gwaith arfaethedig i ailddatblygu ein hadeilad yn Wimpole Street.

Yn ystod y flwyddyn, aeth y Cyngor ati i weithredu mentrau i gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd, a bydd y rhain yn parhau trwy 2012. Mae'r arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd yn 2011 gyfwerth ag arbedion o £0.8 miliwn (3% o'r sylfaen costau cyfredol) a fydd yn cynyddu i £3.0 miliwn yn 2012 a mwy na £4.0 miliwn o 2013 ymlaen. Bydd yr arbedion hyn yn cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen i wella'r swyddogaeth addasrwydd i ymarfer.

### Cronfa Bensiwn:

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, prisiodd ymgynghorwr pensiynau'r Cyngor y cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2011. Nid yw hyn yn ymwneud â'r gwerthusiad tair blynedd a fydd yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2012. Yn ôl dadansoddiad yr ymgynghorydd, cafwyd diffyg actiwaraidd net o £598,000 yng ngwerth cronfa'r cynllun yn 2011, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd. Yn y cyfamser, roedd taliadau o'r cynllun £133,000 yn fwy na thaliadau i'r cynllun a'r llog a dderbyniwyd. O ganlyniad, cafwyd colled gyffredinol o £731,000 yn y cynllun pensiwn, gan gynyddu gwarged y pensiwn i £2,540,000 (2011) o £3,271,000 (2010).

### Perygl hylifedd:

Cynyddodd balans ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i £36.4 miliwn, (2010 - £33.4 miliwn). Roedd £22.1 miliwn o'r balans hwnnw'n ffioedd cofrestru a dalwyd ymlaen llaw ar 31 Rhagfyr 2011. Mae'r balansau hyn yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt yn Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau arian yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn. Mae derbynebau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf, pan fydd gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd nhw. Mae gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i rannu'n gyfartal trwy'r flwyddyn.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol. Mae'r balansau nad oes angen eu defnyddio at ddibenion gweithredol tymor byr yn cael eu buddsoddi yn y farchnad arian am dymor o dri mis, a chaiff hyn ei adolygu a'i adnewyddu ar ddiwedd pob tymor.

### Cronfeydd wrth gefn:

Ar ôl adolygu ei bolisi Cronfeydd Wrth Gefn, ym mis Rhagfyr 2011, cytunodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar bolisi diwygiedig sy'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- amcanion y Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a rheoleiddio
- risg i incwm a gwariant y Cyngor
- rhaglenni gwariant cyfalaf sylweddol arfaethedig

# Adolygiad Ariannol

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011

Wrth osod lefelau targed ar gyfer y cronfeydd wrth gefn, credwyd fod gwariant gweithredu blynyddol rhwng pedwar a chwe mis yn briodol. Mae'r ystod hwn yn amodol ar ystyriaeth flynyddol gan Bwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes y Cyngor pan fydd yn argymell cyllideb y flwyddyn ganlynol i'w chymeradwyo gan y Cyngor.

### Archwilwyr allanol

Mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan Crowe Clark Whitehill LLP o St Bride's House, 10 Salisbury Square, London EC4Y 8EH ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 gan y Comptroller and Auditor General, Amyas C E Morse, National Audit Office, 157-191 Buckingham Palace Road, Victoria, London SW1W 9SP. Mae'r adroddiad archwilio annibynnol ar gael ar dudalen 43 o'r adroddiad hwn, ac mae tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gael ar dudalen 45

Kevin O'Brien

Cadeirydd
17 Mai 2012

Evlynne Gilvarry

Prif Weithredwr a Chofrestrydd
17 Mai 2012

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

# 8

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011

Dan Ddeddf Deintyddion 1984 mae'n ofynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ogystal â'i incwm a'i wariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu wneud y canlynol:

- Rhoi sylw i'r Dyfarniadau Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- Nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y Dyfarniadau Cyfrifon, wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon; a
- Pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol i'r Cyngor am briodoldeb a rheoleidd-dra ei gyllid, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

# Datganiad ar Reolaeth Fewnol

## Cwmpas Cyfrifoldeb

Fel y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol am sicrhau bod system rheoli fewnol gadarn ar waith sy'n cefnogi polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn diogelu asedau'r sefydliad.

Wrth wneud fy asesiad, rwyf wedi dibynnu ar drafodaethau ag archwilwyr mewnol ac eraill, ynghyd â'r archwiliad mewnol ac adroddiadau eraill a'r cofrestri risg a luniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Lluniwyd system rheoli fewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i reoli'r risg o fethu cyflawni ein hamcanion ar lefel resymol, yn hytrach na diddymu pob risg posibl.

## Y gallu i ymdrin â risg

Yn ystod 2011, fi oedd y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd. Yn ystod 2011, penodwyd tri Chyfarwyddwr parhaol newydd, gan gwblhau'r Tîm Rheoli Gweithredol. Cynhaliodd pob cyfarwyddwr adolygiad o ofynion y sefydliad i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor yn effeithiol. O ganlyniad, dechreuwyd ar y broses o ailstrwythuro a chreu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau a rhoi gwelliannau ar waith yn 2011, a bydd y gwaith hwn yn parhau ar ddechrau 2012. Yn 2011, cyflogodd y Cyngor y nifer o staff parhaol roedd wedi cyllidebu ar eu cyfer, gan leihau'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod ansefydlog blaenorol.

Yn 2011, er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu'n strategol a gwneud y gyfarwyddiaeth yn atebol, cytunodd y Cyngor ar y materion a fyddai'n cael eu cadw i'r Cyngor a'r materion a fyddai'n cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr, a chymeradwyodd strwythur pwyllgorau newydd ar gyfer cynorthwyo'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth briodol. Mae pob papur a gaiff ei ystyried gan y Cyngor a'r Pwyllgorau'n cynnwys dadansoddiad risg o'r materion a gafodd eu cynnwys.

Y canlynol sy'n gyfrifol am reoli risg yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol:

- Y corff llywodraethu, y Cyngor, sy'n cynnwys 24 aelod a benodwyd yn annibynnol (ceir eu manylion yn yr adran ar Aelodau'r Cyngor)
- Tîm Rheoli Gweithredol sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Llywodraethu, y Cyfarwyddwr Rheoleiddio, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebiadau. Mae pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol sy'n berthnasol i waith ei gyfarwyddiaeth ac mae'n atebol i'r Prif Weithredwr. Mae ganddynt awdurdod wedi'i ddirprwyo iddynt gan y Prif Weithredwr i wneud penderfyniadau a gwario fel y nodir yn y Polisïau Ariannol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am sicrhau'r Cyngor ynghylch cywirdeb y datganiadau ariannol, sut y llywodraethir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, systemau rheoli mewnol a rheoli risg ac effeithiolrwydd y systemau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys a yw'r gweithredoedd a nodir mewn adroddiadau archwilio yn cael eu cyflawni. Tan fis Medi 2011, adolygwyd y materion ariannol gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol cyn cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Adolygwyd y gyllideb, y cynllun busnes a materion adnoddau dynol. O fis Medi 2011 ymlaen, caiff materion ariannol eu hadolygu cyn i'r Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes eu cyflwyno i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Tâl yn cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â thâl ac adnoddau dynol.

# 9

## Y fframwaith rheoli mewnol a risg

Caiff risgiau strategol eu hasesu gan y Weithrediaeth, eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a'u hadrodd i'r Cyngor ym mhob cyfarfod. Yn ystod 2011, parhaodd y Weithrediaeth a'r Pwyllgor Archwilio i adolygu a datblygu'r system rheoli risg er mwyn gwella sut y caiff risgiau eu nodi a'u lliniaru ar lefel strategol a gweithredol.  O ganlyniad, uwchraddiodd yr archwilwyr mewnol a oedd yn adrodd ym mis Chwefror 2012 werthfawrogiad y Cyngor o risg o “fod yn naïf am risg” i fod yn “ymwybodol o risg” ac ystyriwyd bod lefel gyffredinol y sicrwydd risg yn “ddigonol gan fwyaf”.  Bydd gwaith yn parhau yn ystod 2012 i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn y sefydliad.

## Datgelu'r prif risgiau ac ansicrwydd

Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol 2010, argymhellwyd y canlynol gan yr archwilwyr mewnol, PKF:

- Cwblhau'r broses o sefydlu uwch dîm rheoli llawn sydd â'r sgiliau a'r awdurdod priodol.
- Sefydlu prosesau rheoli risg ar lefel strategol a gweithredol mewn fformat sy'n gweithio.
- Cryfhau'r gwaith o fonitro perfformiad ariannol a gweithredol a'r llif gwybodaeth i'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Cyngor.
- Cryfhau hyfforddiant a rheolaeth y gwasanaeth addasrwydd i ymarfer, yn dilyn penodi'r rheolwr gwaith achos newydd.
- Mynd i'r afael â gwendidau rheoli a nodwyd drwy'r camau y cytunwyd arnynt a pharhau i adolygu gweithgareddau i asesu pa mor briodol ydynt i gyflawni amcanion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gan ystyried pob argymhelliad yn ei dro:

- Penodwyd Tîm Rheoli Gweithredol llawn ym mis Mawrth 2011.
- Datblygwyd cofrestr risg strategol a gefnogir gan gofrestri risg gweithredol a chyflwynir adroddiadau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor.
- Ystyrir adroddiadau ariannol a pherfformiad gweithredol gan y Tîm Rheoli Gweithredol bob mis a chan y Cyngor ym mhob cyfarfod (bob chwarter).
- Mae rheolwr gwaith achos wedi'i benodi i'r tîm addasrwydd i ymarfer, sydd wedi gwella'r gwaith o reoli a darparu hyfforddiant wedi'i dargedu.
- Canfuwyd ac aethpwyd i'r afael â gwendidau rheoli, ac arweiniodd hyn at asesiad PKF a nododd fod rheolaeth risg o fewn y Cyngor yn ‘ddigonol gan fwyaf'.

# Datganiad ar Reolaeth Fewnol

parhad

Ym mis Chwefror 2012, daeth PKF i'r casgliad bod archwiliadau mewnol 2011 yn dangos bod rheolaeth fewnol wedi gwella'n gyffredinol a'r materion rheoli mewnol mwyaf arwyddocaol i'r Cyngor wrth fynd ymlaen yw:

- Cwblhau'r gwaith o sefydlu dull o reoli risg ar lefel strategol a gweithredol sydd mewn fformat ymarferol.
- Adeiladu ar y newidiadau i'r prosiect Systemau Gwybodaeth Busnes a pharhau i gryfhau'r gwaith o fonitro perfformiad ariannol a gweithredol a llif y wybodaeth i'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Cyngor.
- Gwneud yn siŵr bod y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwella perfformiad y swyddogaeth addasrwydd i ymarfer yn parhau.
- Gweithredu'r model asesu ar sail canlyniadau ar gyfer cyrsiau addysg a chwblhau'r rhaglen o archwiliadau arfaethedig.
- Mynd i'r afael â gwendidau rheoli a nodwyd trwy'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt a pharhau i adolygu gweithgareddau er mwyn asesu pa mor briodol ydynt o ran cyflawni amcanion y Cyngor.

## Ymchwiliad y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE)

Ym mis Awst 2011, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r CHRE adrodd iddo ar honiadau a wnaed gan y cyn-gadeirydd, Alison Lockyer.  Nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto. Yn ystod 2011, aeth y Cyngor i'r afael â'r gwendidau sefydliadol a gyfrannodd at y materion a oedd yn cael eu trafod yn yr ymchwiliad.  Yn arbennig:

- Mabwysiadodd y Cyngor ddull newydd o fynd i'r afael â chwynion am aelodau o'r Cyngor
- Cafodd y cymorth a'r hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio eu gwella

## Cyflwyno technoleg newydd

Clustnodwyd cryn dipyn o adnoddau i ddatblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd yn 2011. Cyflwynwyd rhan gyntaf y system newydd – system reoli achosion ar gyfer y swyddogaeth addasrwydd i ymarfer – ym mis Ebrill 2012. Mae'r prosiect, a gyflwynwyd er mwyn symleiddio holl swyddogaethau statudol y Cyngor, yn cael ei oruchwylio gan fwrdd a gadeirir gan y Prif Weithredwr ac sy'n cynnwys uwch gyfarwyddwyr ac aelod o'r Cyngor. Blaenoriaeth y bwrdd yw sicrhau bod manyleb y system yn briodol, bod y system yn cael ei phrofi'n ddigonol a bod staff yn cael eu hyfforddi'n ddigonol cyn i'r system fynd yn fyw.

# 9

## Materion newydd eraill

Yn 2011, bu'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymgynghori ar ddiwygiadau i'r gyfarwyddeb cydnabod cymwysterau proffesiynol a chyflwynodd gynigion ar hyn. Cyflwynodd y Cyngor, ynghyd â rheoleiddwyr eraill, sylwadau ar y cynigion, er enghraifft, ar allu rheoleiddwyr i brofi gallu ieithyddol. Mae'r Cyngor wrthi'n gweithio â'r Adran Iechyd a'r prifysgolion i wneud yn siŵr bod darpariaeth hyfforddiant deintyddol y DU yn cael ei chyflwyno'n briodol o fewn paramedrau'r gyfarwyddeb ddiwygiedig.

## Torri rheolau diogelu data

Yn 2011, nodwyd 14 digwyddiad a oedd yn ymwneud â thorri rheolau diogelu data, gyda dau o'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth gan y Cyngor ei hun, ond ni arweiniodd hyn at unrhyw gamau ffurfiol. Mae pob cam gweithredu o ran yr achosion o dorri rheolau diogelwch wedi'u cwblhau bellach ac maen nhw wedi'u cau. O ganlyniad i'r achosion hyn, rydym wedi adolygu prosesau unigol a gweithdrefnau ehangach ac wedi gwneud newidiadau er mwyn lleihau'r risg cymaint â phosibl. Rydym wedi ymchwilio i weithdrefnau newydd ac wedi cynnwys gwersi yn ein hadolygiad o safonau Addasrwydd i Ymarfer a gwaith corfforaethol ar System Reoli Achosion a fydd yn cynnwys rhybuddion ac awgrymiadau ar gyfnodau allweddol o'r broses. Mae swyddi newydd wedi'u creu (Ysgrifenyddion Pwyllgor sydd wedi'u cymhwyso'n gyfreithiol a Rheolwr Cymorth Gwaith Achos) ac mae hyfforddiant mewnol ar Ddiogelu Data a chyfleoedd hyfforddiant eraill wedi'u darparu, yn arbennig i staff Addasrwydd i Ymarfer.

Evlynne Gilvarry
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

17 Mai 2012

# Cyfrifon 2011

# 10

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# 11

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig sy'n cael eu rhifo rhwng 1 a 22.

Wrth baratoi'r cyfrifon, defnyddiwyd fframwaith adrodd ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Adroddiad i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig yw hwn, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir yn unol â hynny gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallwn hysbysu Aelodau'r Cyngor am y materion hynny sy'n ofynnol i ni hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilio ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym, i unrhyw un ond y Cyngor ac aelodau'r Cyngor fel corff.

### Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn ymwneud â chael gafael ar ddigon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau anghywir perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Cyngor ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Rydym yn darllen yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os ydym yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau anghywir neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, rydym yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

parhad



**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2011 ac o'i ddiffyg ariannol / gwarged ar ddiwedd y flwyddyn honno;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau yn unol â hynny a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor.

Crowe Clark Whitehill LLP
Archwilydd Statudol
Llundain

17 Mai 2012

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

12

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011 o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiadau o'r Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth am y tâl i'r Cadeirydd a'r Tîm Rheoli Gweithredol yn yr Adroddiad Blynyddol a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

**Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd**

Fel yr esboniwyd yn fwy trylwyr yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'i Brif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Deintyddion 1984. Archwiliais y cyfrifon yn unol â'r Safonau Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n gofyn i'm staff a minnau gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas archwiliad y Datganiadau Ariannol**

Mae archwiliad yn ymwneud â chael gafael ar ddigon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau anghywir sylweddol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenais yr holl wybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol yn adrannau Rheoli ac Adolygu Ariannol yr Adroddiad Blynyddol i nodi anghysondebau sylweddol yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau anghywir neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol, rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Rhaid i mi gael gafael ar ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion y bwriadwyd nhw ar eu cyfer gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion y bwriadwyd nhw ar eu cyfer gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2011 ac o'r gwarged oedd ganddo ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yr adeg honno; ac
- Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau yn unol â hynny.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adrannau Rheoli ac Adolygu Ariannol yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch trwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol, oni bai bod y canlynol, yn fy marn i, yn wir amdanynt:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse
Comptroller and Auditor General
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
London SW1W 9SP

# Cyfrifon incwm a gwariant

# 13

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011

| | Nodyn | 2011 | 2010 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd | 2 | 29,841 | 22,425 |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 3 | 807 | 1,925 |
| Amrywiol | 3 | 47 | 12 |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **30,695** | **24,362** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 5 | 10,126 | 9,219 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 6 | 9,471 | 10,047 |
| Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor | 7 | 5,496 | 4,694 |
| Gweinyddiaeth | 8 | 2,338 | 1,821 |
| Swyddfeydd | 9 | 680 | 562 |
| Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 10 | 655 | 453 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **28,766** | **26,796** |
| **Gwarged/(diffyg) ar ôl gwariant gweithredu** | | **1,929** | **(2,434)** |
| Incwm buddsoddiadau | 4 | 235 | 138 |
| **Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddiadau** | | **2,164** | **(2,296)** |
| Treth | 11 | 63 | (132) |
| **Gwarged/(diffyg) a gadwyd ar ôl treth** | | **2,227** | **(2,428)** |
| **Incwm/(gwariant) arall cynhwysfawr** | | | |
| (Colledion)/enillion ar fuddsoddiadau heb eu gwireddu | 14 | (48) | 92 |
| (Colledion)/enillion actiwaraidd ar asedau'r gronfa bensiwn | 19 | (598) | 1,223 |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr arall** | | **(646)** | **1,315** |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **1,581** | **(1,113)** |

Mae pob incwm a gwariant yn berthnasol i'r gweithgareddau parhaus

# Datganiad o lif arian

14

## Ar 31 Rhagfyr 2011

| | Nodyn | 2011 | 2010 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 12 | 2,977 | 2,846 |
| Asedau anghyffyrddadwy | 13 | 681 | 515 |
| Asedau ariannol | 14 | 579 | 626 |
| Darpariaeth ar gyfer asedau pensiwn | 19 | 2,540 | 3,271 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol:** | | **6,777** | **7,258** |
| **Asedau Cyfredol:** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | 428 | 397 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 16 | 36,411 | 33,435 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol:** | | **36,839** | **33,832** |
| **Cyfanswm asedau:** | | **43,616** | **41,090** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a thaliadau eraill | 17 | 4,620 | 3,612 |
| Rhwymedigaethau eraill | 17 | 15 | 15 |
| Incwm gohiriedig | 17 | 22,094 | 22,026 |
| Darpariaethau | 18 | 4 | 4 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **26,733** | **25,657** |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | **16,883** | **15,433** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 18 | 206 | 210 |
| Eitemau taladwy eraill | 17 | 133 | 260 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **339** | **470** |
| **Asedau llai rwymedigaethau** | | **16,544** | **14,963** |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfa gyffredinol wrth gefn | | 13,600 | 11,240 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | 2,540 | 3,271 |
| Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn | | 404 | 452 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **16,544** | **14,963** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Aelodau'r Cyngor ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan ar 17 Mai 2012 gan:

Kevin O'Brien, Cadeirydd.

Evlynne Gilvarry, Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

# Datganiad llif arian

15

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | Nodyn | 2011 £'000 | 2010 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged/(diffyg) o weithgareddau gweithredu | | 1,929 | (2,434) |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | | 620 | 481 |
| Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | 3 | – |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | (31) | 62 |
| Cynnydd mewn eitemau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill | 17 | 949 | 5,543 |
| Symudiadau ariannu'r gronfa bensiwn wrth gefn | 19 | 133 | (43) |
| Treth ohiriedig | 11 | 108 | (104) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 18 | (4) | 19 |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **3,707** | **3,524** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 12 | (591) | (273) |
| Prynu asedau anghyffyrddadwy | 13 | (338) | (337) |
| Dileu asedau | | – | 2 |
| Enillion o werthu asedau | | 9 | – |
| Prynu asedau ariannol | 14 | (1) | (3) |
| Incwm buddsoddi | 4 | 235 | 138 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(686)** | **(473)** |
| Treth a dalwyd | | (45) | (28) |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | **2,976** | **3,023** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 16 | **33,435** | **30,412** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 16 | **36,411** | **33,435** |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | | **2,976** | **3,023** |

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn

16

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol wrth gefn £'000 | Cronfa Bensiwn wrth gefn £'000 | Enillion heb eu gwireddu ar y Gronfa Fuddsoddiadau wrth gefn £'000 | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2009** | | **13,711** | **2,005** | **360** | **16,076** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn 2010** | | | | | |
| Diffyg am y flwyddyn | IaG | (1,113) | – | – | (1,113) |
| Newid i'r gronfa bensiwn wrth gefn | 19 | (1,266) | 1,266 | – | – |
| Enillion/(colledion) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | | (92) | – | 92 | – |
| | | **(2,471)** | **1,266** | **92** | **(1,113)** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2010** | | **11,240** | **3,271** | **452** | **14,963** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2011** | | | | | |
| Gwarged am y flwyddyn | IaG | 1,581 | – | – | 1,581 |
| Newid i'r gronfa bensiwn | 19 | 731 | (731) | – | – |
| Enillion/(colledion) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 14 | 48 | – | (48) | – |
| | | **2,360** | **(731)** | **(48)** | **1,581** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2011** | | **13,600** | **2,540** | **404** | **16,544** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1 Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'u diwygiwyd ar ôl cynnwys gwerth marchnad buddsoddiadau, yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, gan ystyried egwyddorion a datgeliadau cyfrifyddu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac fe'u nodir isod.

Sefydlwyd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan ddeddf Seneddol ym 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig. Lleolir prif swyddfa'r Cyngor yn 37 Wimpole St, Llundain W1G 8DQ. Cyflwynir datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn punnoedd.

### 1.1 Fformat y Cyfrifon

Gofynnir i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi ei gyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban. Nodir diben statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y cyflwyniad i'r Adroddiad ar y Cyfrifon.

### 1.2 Safonau, diwygiadau a dehongliadau o safbwynt safonau a gyhoeddwyd ond nas gweithredwyd eto

Mae'r Cyngor wedi asesu'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau canlynol sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto, ac mae wedi penderfynu peidio â'u mabwysiadu cyn y dyddiad pan fydd angen eu mabwysiadu ar y sail na fyddai'r newidiadau'n cael unrhyw effaith, neu effaith sylweddol, ar y cyfrifon hyn ac na fyddent yn darparu gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r darllenydd:

- IFRS 9 Offerynnau Ariannol – dyddiad gweithredu: cyfnodau ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015, heb ei gymeradwyo eto gan yr UE. Mae IFRS 9 yn symleiddio'r gwaith o ddosbarthu a mesur asedau ariannol.

Mae'r Cyngor yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol neu'r canlyniadau ar gyfer 2010 a 2011.

### 1.3 Amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu critigol

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'n rhaid i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau sy'n cael eu hadrodd yn y cyfrifon blynyddol. Mae'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys digwyddiadau disgwyliedig y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol adeg gwneud y cyfryw amcangyfrifon a phenderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yr hyn sy'n digwydd go iawn yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r perygl mwyaf sylweddol o achosi newid sylweddol i'r symiau o asedau a rhwymedigaethau i'w cario yn cael eu trafod isod.

# 17

**i) Buddion pensiwn**

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyfrif am bensiynau yn unol ag IAS 19 Buddion Gweithwyr Cyflogedig. Wrth benderfynu ar gost y pensiwn a rhwymedigaeth buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, defnyddir nifer o ragdybiaethau gan gynnwys y gyfradd ddisgownt, y twf mewn cyflogau, chwyddiant prisiau, enillion disgwyliedig buddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r rhagdybiaethau'n cael eu cytuno gyda'r actiwari cymwysedig a'u defnyddio i gyfrifo'r ddarpariaeth bensiwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

**ii) Dibrisio ac Amorteiddio**

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyfrif am ddibrisio ac amorteiddio yn unol ag IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anghyffyrddadwy. Mae'r gost ddibrisio ac amorteiddio yn cydnabod y gostyngiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnodau y caiff yr ased ei ddefnyddio. Gwneir penderfyniadau ar sail amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

**iii) Darpariaethau**

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyfrif am ddarpariaethau yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn. Mae'r darpariaethau'n seiliedig ar amcangyfrifon o werth a bennir gan briswyr cymwysedig priodol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y polisi cyfrifyddu ar ddarpariaethau isod ac yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

## 1.4 Busnes Gweithredol

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi adolygu ei ragolygon o weithrediadau a llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor yn credu ei bod hi'n briodol paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail busnes gweithredol.

## 1.5 Eiddo, Offer, Cyfarpar ac Asedau Anghyffyrddadwy

Mae Asedau Anghyffyrddadwy Sefydlog yn cael eu nodi fel Eiddo, Offer a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo hynny'n bosibl, mae asedau meddalwedd a datblygu Technoleg Gwybodaeth wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Anghyffyrddadwy o dan IAS 38.

Cedwir asedau sy'n cael eu creu ar y dyddiad cyfrifyddu yn ôl cost nes eu bod yn gallu bod yn weithredol, pan gânt eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau anghyfredol y maent yn perthyn iddo.

Nodir eiddo, offer, cyfarpar ac asedau anghyffyrddadwy yn ôl cost, ar ôl ystyried gwerth dibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad. Dim ond pan fo cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gaffaelwyd yn fwy na £1,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

### 1.6 Dibrisio ac Amorteiddio

Diben dibrisio ac amorteiddio yw dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Dyma'r oesau defnyddiol:

(a) Dibrisir gwaith adeiladu'r Cyngor mewn adeiladau ar lesddaliad hir yn 37/38 Wimpole Street a 13/15 Wimpole Mews dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig neu weddill y brydles.

(b) Dibrisir gwaith adnewyddu cyfalaf a holl waith gwella'r lesddaliad yn 37/38 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ, 13/15 Wimpole Mews a'r ail lawr, 44 Baker Street, Llundain W1U 7AL yn ystod gweddill y brydles - 20 mlynedd neu 10 mlynedd - neu, os yn llai na hynny, yn ystod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

(c) Dangosir oes asedau eraill isod.

| | |
|---|---|
| – dodrefn a ffitiadau | hyd at 10 mlynedd |
| – offer a chyfarpar | hyd at 25 mlynedd |
| – cyfarpar TG | hyd at 4 blynedd |
| – meddalwedd, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd | hyd at 5 mlynedd |

Adolygir cyfraddau dibrisio yn rheolaidd i gymharu oes wirioneddol asedau â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

### 1.7 Lleihad

Ar ddyddiad bob mantolen, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adolygu symiau cario ei asedau i bennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi lleihau mewn gwerth. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn pennu graddfa'r colledion lleihad. Caiff colledion lleihad eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant ar unwaith.

Pan fo cynnydd dilynol yn swm adferadwy asedau yn sgil newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adferadwy, mae'n cael ei ystyried fel gwrthdroad o'r colledion lleihad blaenorol ac yn cael ei gydnabod i'r un graddau â swm cario'r asedau a fyddai wedi'i bennu (gan ystyried amorteiddiad a dibrisiant) pe na bai colledion lleihad wedi'u cydnabod. Cydnabyddir y gwrthdroad yn y cyfrif incwm a gwariant ar unwaith.

### 1.8 Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail croniadau ar ôl derbyn y nwyddau neu gyflawni'r gwasanaeth. Caiff TAW anadferadwy ei gynnwys gyda'r eitem o wariant y mae'n berthnasol iddi.

# 17

### 1.9 Incwm

Cyfrifir pob incwm pan fydd digon o sicrwydd dros hawl, swm a derbynneb.

Mae'r holl ffioedd o gofrestriadau deintyddion yn cael eu gohirio tan ddechrau'r cyfnod cofrestru y mae'r ffioedd yn gysylltiedig ag ef. Mae'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion rhwng 31 Ionawr a 31 Rhagfyr.

Cydnabyddir yr holl ffioedd cofrestru gan weithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn llawn yn y flwyddyn ariannol pan dderbynnir yr incwm. Mae'r cyfnod cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

Cydnabyddir ffioedd a dderbynnir mewn perthynas ag Arholiadau Cofrestru Tramor pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Cydnabyddir ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan fo difidendau neu log yn ddyledus ac fe'i cofnodir fel swm sy'n cynnwys y dreth adferadwy.

### 1.10 Prydlesi ariannol

Adolygir telerau holl brydlesi'r Cyngor a phan fo'r manteision a'r peryglon o berchnogaeth yn nwylo'r Cyngor, ystyrir prydlesi yn brydlesi ariannol. Mae gwerthoedd cyfalaf prydlesi ariannol, ynghyd â gwerth cyfredol ad-daliadau cyfalaf yn y dyfodol yn cael eu nodi fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Caiff prydlesi ar wahân i brydlesi ariannol eu nodi fel prydlesi gweithredol. Caiff prydlesi gweithredol eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinol dros dymor y brydles, gan ystyried unrhyw gymhelliannau prydles yn unol â thelerau ISA 17.

Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu pob contract gwasanaeth i bennu a yw'r contractau'n cynnwys prydles ariannol o dan delerau IAS 17 fel y'u dehonglir gan IFRIC 4.

### 1.11 Trethi

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau allanol o incwm yn unig. Yn hanesyddol, incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar bob gwahaniaeth trethadwy dros dro. Fodd bynnag, ni ddarperir treth ohiriedig pan gydnabyddir ased neu rwymedigaeth yn y lle cyntaf oni bai fod y trafodyn cysylltiedig yn effeithio ar dreth neu'r elw cyfrifyddu. Hefyd, cydnabyddir ased treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr elw trethadwy ar gael ac y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu yn ei erbyn. Mesurir asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yng nghyfnod gwireddu'r ased neu pan setlir y rhwymedigaeth. Mae'r dull mesur hefyd yn seiliedig ar y canlyniadau i dreth o adennill neu setlo swm cario asedau a rhwymedigaethau. Cydnabyddir newidiadau mewn asedau neu rwymedigaethau treth ohiriedig fel elfen o gostau treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

### 1.12 Cynlluniau Pensiwn

Mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn cyfrannu at gynllun buddion pensiwn diffiniedig ar gyfer ei weithwyr. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r Cyngor a chânt eu buddsoddi fel y disgrifir yn nodyn 19.

Caiff costau gwasanaeth cyfredol y cynllun buddion pensiwn diffiniedig a chostau net llog y cynllun a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys o fewn costau pensiwn y cyfrif incwm a gwariant. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn syth o fewn incwm cynhwysfawr arall.

Mesurir asedau'r cynllun buddion diffiniedig yn ôl gwerth teg ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwariaidd ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar gyfradd sy'n gyfwerth â chyfradd adennill gyfredol bond corfforaethol o safon uchel sydd â thelerau tebyg i rwymedigaethau'r cynllun. Nodir ased neu rwymedigaeth y buddion diffiniedig terfynol ar wahân yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

Sefydlodd y Cyngor gynllun cyfrannu diffiniedig, ond cedwir yr asedau'n gwbl annibynnol ar y rheiny yng nghynllun y Cyngor. Ni chaiff y cynllun ei gontractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth. Mae cyfrannu'n wirfoddol a bydd y Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy i unrhyw weithiwr sy'n penderfynu ymuno â'r cynllun.

Mae cyfraniadau i'r cynllun cyfrannu diffiniedig yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

### 1.13 Asedau Ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl asedau ariannol i asedau ariannol am werth teg drwy elw neu golled. Isod, mae'r mathau o asedau o fewn y categori, yn dibynnu ar i ba ddiben y cafwyd yr ased.

**Asedau ariannol:** mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau o warantau rhestredig ac ymddiriedolaethau unedol sy'n gronfa a reolir ac yn cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuon arian parod. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y pris cynnig terfynol a ddyfynnwyd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad wedi'u cynnwys o fewn incwm cynhwysfawr arall.

**Masnach a symiau derbyniadwy eraill:** asedau ariannol anneilliadol yw'r rhain gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad actif. Maent yn deillio'n bennaf drwy ddarpariaeth gwasanaethau, ond maent hefyd yn ymgorffori mathau eraill o asedau ariannol cytundebol. Maent yn cael eu cydnabod i ddechrau fel gwerth teg ynghyd â chostau trafodion cysylltiedig sy'n uniongyrchol briodol â'r broses o'u caffael neu eu dyrannu, ac sy'n cael eu cario wedi hynny am y gwerth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio drwy ddefnyddio dull cyfradd llog effeithiol, wedi tynnu'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 15.

**Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod:** mae'r rhain yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a ddelir ar gais gyda banciau.

# 17

### 1.14 Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl rwymedigaethau ariannol i rwymedigaethau ariannol am werth teg drwy elw neu golled. Isod, mae'r mathau o rwymedigaethau o fewn y categori, yn dibynnu ar i ba ddiben y cafwyd y rhwymedigaeth.

**Masnach a symiau taladwy eraill:** mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau am werth teg ac yna'u cario am werth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio. Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 17.

**Darpariaethau:** cydnabyddir darpariaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol pan fo gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol gyfredol yn sgil digwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif o fanteision economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir sicrhau amcangyfrif dibynadwy o'r all-lif o fanteision economaidd.

(i) **Costau Ymddeoliad Cynnar:** Mae'r Cyngor yn talu buddion ychwanegol i weithiwr a ymddeolodd yn gynnar ar sail feddygol ac mae'n fwy na'r cynllun buddion diffiniedig arferol. Mae cyfanswm gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar brisiad actiwaraidd a gyfrifwyd gan actiwari cynllun pensiwn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar yr adeg y dechreuodd yr ymddeoliad cynnar. Telir swm o arian bob blwyddyn gydag amodau, i'r gweithiwr am y cyfnod rhwng gadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Ar y dyddiad ymddeol arferol, bydd y balans sy'n weddill yn cael ei dalu i gynllun pensiwn â buddion diffiniedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ategu pensiwn y gweithiwr. Darparwyd hyn yn llawn gan y Cyngor.

(ii) **Dadfeiliadau:** Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â chydymffurfio â chymalau prydlesi adeiladau sydd ym meddiant y Cyngor. Mae darpariaethau dadfeiliadau'r Cyngor ar sail amcangyfrif o gost gwariant y dyfodol, er mwyn setlo rhwymedigaethau mewn perthynas â chymalau prydlesi. Roedd y Cyngor wedi paratoi'n llawn ar gyfer hyn. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hailbrisio'n rheolaidd gan brisiwr allanol cymwys.

### 1.15 Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y canlynol:

**Cronfeydd cyffredinol wrth gefn**
Cynrychioli'r canlyniadau argadwedig ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau a/neu rwymedigaethau cynllun pensiwn ac enillion/colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad.

**Cronfa bensiwn wrth gefn**
Cynrychioli enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbrisio darpariaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ased/rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

**Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn**
Cynrychioli enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau dros eu cost hanesyddol.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

### 1.16 Offerynnau ariannol

Amlinellir manylion y categorïau amrywiol o asedau ariannol yn nodyn 14 a nodyn 15. Amlinellir y categorïau amrywiol o rwymedigaethau ariannol yn nodyn 17.

**Risg Credyd**

Bod yn agored i risg credyd yw'r risg y bydd un parti i offeryn ariannol yn methu cyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i barti arall. Ni ystyrir bod hyn yn bwysig. Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ei hun ac nid yw'n agored i ddyled allanol. Mae'n defnyddio mesurau lliniaru risg amrywiol, gan gynnwys asesiadau credyd-raddio i asesu risg credyd gwrth-bartïon, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

**Perygl hylifedd**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ar hyn o bryd ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau cyllid arian parod yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbynebau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fo deintyddion yn talu eu ffi cadw blynyddol ac ym mis Gorffennaf, pan fo gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae gwariant y Cyngor yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal gydol y flwyddyn. Felly, nid yw'r Cyngor yn credu ei fod yn agored iawn i berygl hylifedd.

**Risg arian cyfred**

Mae pob ased a rhwymedigaeth sylweddol yn cael eu trafod mewn Sterling, felly nid yw'n agored i risg arian cyfred.

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bolisi cronfeydd wrth gefn. Yn sgil cylchoedd adnewyddu cofrestriadau a dulliau talu ffioedd cofrestru, mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol swm sylweddol o arian mewn cyfrifon cadw tymor byr i dalu'r gwariant a ddisgwylir dros y cyfnod talu.

**Risg cyfraddau llog**

Mae pawb sy'n cofrestru yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae cronfeydd gwarged yn cael eu cadw fel a ganlyn:

**Adnau tymor sefydlog** – mae mwyafrif y cronfeydd gwarged yn cael eu cadw mewn marchnad arian tymor byr. Mae'r Cyngor yn chwilio am gyfraddau cystadleuol ar fuddsoddiadau marchnad arian.

**Buddsoddiadau** – Buddsoddir gweddill y cronfeydd mewn portffolio o ecwitïau ac ymddiriedolaethau unedol lle mae yna risg o leihad mewn gwerth drwy'r amser.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol gan ddefnyddio strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a cholled ddiangen i gyfrifoldebau rheoleiddio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Ym mis Rhagfyr 2011, cymeradwyodd y Cyngor ddatganiad diwygiedig o'r egwyddorion buddsoddi, lle bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ceisio cyflawni portffolio risg o fuddsoddiadau er mwyn ceisio cyflawni enillion buddsoddi eang ochr yn ochr â chwyddiant.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn un sylweddol o ran bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei weithredoedd.

# 17

## 2 Incwm am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | 2011 | 2010 |
|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **£'000** | **£'000** |
| **Ffioedd** | | | |
| **Deintyddion** | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 2,073 | 700 | 538 |
| Cofrestru dros dro | 192 | 111 | 104 |
| Cadw | 37,248 | 21,455 | 15,879 |
| Adfer ar ôl dileu | 393 | 47 | 50 |
| **Cyfanswm** | **39,906** | **22,313** | **16,571** |
| **Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol** | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 4,575 | 275 | 258 |
| Cadw | 57,391 | 6,876 | 5,306 |
| Cofrestru ar ôl dileu | 1,409 | 34 | 24 |
| **Cyfanswm** | **63,375** | **7,185** | **5,588** |
| **Arbenigwyr** | | | |
| Cofrestru arbenigwyr | 175 | 60 | 71 |
| Ffi cadw blynyddol arbenigwyr | 3,935 | 283 | 195 |
| Ffi adfer arbenigwyr | 21 | – | – |
| **Cyfanswm** | **4,131** | **343** | **266** |
| **Cyfanswm ffioedd** | | **29,841** | **22,425** |

Mae'r ffigurau uchod yn dangos faint o weithwyr cofrestredig sy'n talu ffioedd yn ystod y flwyddyn ac nid nifer y gweithwyr cofrestredig sydd ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2011.

## 3 Incwm amrywiol Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | | |
|---|---|---|
| Ffioedd arholiadau | 807 | 1,925 |
| Incwm gweithredu arall | 47 | 12 |
| | **854** | **1,937** |

## 4 Incwm o fuddsoddiadau Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | | |
|---|---|---|
| Llog adneuon banc | 221 | 123 |
| Difidendau – gwarantau rhestredig | 14 | 15 |
| | **235** | **138** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

## 5 Niferoedd staff a chostau cysylltiedig am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | | | 2010 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff Cyflogedig Parhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Costau staff yn cynnwys:** | | | | |
| Cyflogau | 6,811 | – | 6,811 | 6,100 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 725 | – | 725 | 632 |
| Costau pensiwn | 1,043 | – | 1,043 | 694 |
| Costau staff eraill | 895 | – | 895 | 1,330 |
| Is-gyfanswm | 9,474 | – | 9,474 | 8,756 |
| Staff Dros Dro | – | 652 | 652 | 463 |
| **Cyfanswm** | **9,474** | **652** | **10,126** | **9,219** |

1. O'r cyfanswm o £10.1 miliwn o gostau staff, talwyd £2.5 miliwn i staff Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau (2010 - £1.8M)
2. Gweler adroddiad 'Rheolwyr' a'r 'Adolygiad Ariannol' am ddadansoddiad pellach sy'n egluro'r cynnydd yng nghostau staff

### (a) Gweithwyr y pen

Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd a oedd yn gweithio cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn a ddadansoddwyd yn ôl swyddogaeth:

| | 2011 | | | 2010 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff Cyflogedig Parhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau | 51 | 2 | 53 | 41 |
| Cofrestru | 48 | 5 | 53 | 35 |
| Rheoli polisi a rhanddeiliaid | 16 | 1 | 17 | 23 |
| Llywodraethu | 11 | 1 | 12 | 9 |
| Sicrhau Ansawdd | 8 | – | 8 | 8 |
| Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 9 | – | 9 | 9 |
| Gwasanaethau corfforaethol | 42 | 3 | 45 | 38 |
| **Cyfanswm** | **185** | **12** | **197** | **163** |

### (b) Gweithwyr – Tâl

Nifer y staff ag enillion trethadwy yn y bandiau cyflog uwch:

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| £60,000 ond o dan £70,000 | 6 | 5 |
| £70,000 ond o dan £80,000 | 2 | 2 |
| £80,000 ond o dan £90,000 | 2 | 1 |
| £90,000 ond o dan £100,000 | 3 | 2 |
| £100,000 ond o dan £110,000 | 1 | – |
| £120,000 ond o dan £130,000 | – | 1 |
| £130,000 ond o dan £140,000 | 1 | – |

# 17

## 6 Costau gweinyddol eraill am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol** | | |
| Tâl a threuliau'r Archwilydd: | | |
| Archwiliad allanol - Crowe Clark Whitehill | 31 | 24 |
| Archwiliad allanol - Crowe Clark Whitehill – ffioedd a dalwyd mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol | 29 | – |
| Archwiliad allanol – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 2 | 2 |
| Archwiliad mewnol - PKF (UK) LLP | 68 | 58 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 5,969 | 5,710 |
| Ffioedd a chostau eraill | 1,818 | 2,877 |
| Treuliau eraill | 1,554 | 1,376 |
| **Cyfanswm** | **9,471** | **10,047** |

| | 2010<br>£'000 | 2009<br>£'000 |
|---|---|---|
| Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau canlynol (ar wahân i archwilio) gan yr archwilydd allanol Crowe Clark Whitehill: | | |
| Cyngor ar dreth gorfforaethol | 6 | 1 |
| Cyngor ar gyflogaeth a chyngor arall | – | 6 |
| | **6** | **7** |

## 7 Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| **(a) Ffioedd a threuliau'r Cyngor** | | |
| Ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 225 | 156 |
| Treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 162 | 191 |
| Treuliau cyfarfodydd y Cyngor | 74 | 142 |
| | **461** | **489** |
| **(b) Ffioedd a threuliau pwyllgorau a phaneli** | | |
| Ffioedd a dalwyd i aelodau'r pwyllgorau a phaneli | 2,200 | 1,746 |
| Treuliau a dalwyd i aelodau'r pwyllgorau a phaneli | 1,044 | 947 |
| Ffioedd a threuliau proffesiynol i aelodau pwyllgorau a phaneli | 759 | 562 |
| Treuliau cyfarfodydd pwyllgorau a phaneli | 1,032 | 950 |
| | **5,035** | **4,205** |
| **Cyfanswm cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau** | **5,496** | **4,694** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

## 8 Treuliau gweinyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dibrisiant | 451 | 391 |
| Amorteiddiad | 169 | 90 |
| Colledion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | 3 | – |
| Darpariaethau: | | |
| Symudiad mewn darpariaeth dadfeiliad | – | 23 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredol: | | |
| Llogi peiriannau swyddfa | 72 | – |
| Prydlesi adeiladau | 388 | 356 |
| Taliadau llog | 2 | 2 |
| Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth | 562 | 272 |
| Costau personél | 39 | 25 |
| Costau gweithredu eraill | 652 | 662 |
| | **2,338** | **1,821** |

## 9 Swyddfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Costau swyddfeydd eraill | 680 | 562 |
| | **680** | **562** |

## 10 Cyfathrebiadau a Chyhoeddiadau

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cyfathrebiadau a Chyhoeddiadau | 655 | 453 |
| | **655** | **453** |

# 17

## 11 Trethi am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

### (a) Dadansoddi trethi a godir

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Trethi cyfredol** | | |
| Treth gorfforaethol y DU ar elw'r flwyddyn | 45 | 27 |
| Credyd treth dybiannol ar incwm difidend | – | 1 |
| **Cyfanswm trethi a godir y flwyddyn hon** | **45** | **28** |
| | | |
| **Treth ohiriedig** | | |
| Tarddiad a gwrth-droi gwahaniaethau amseriad | (108) | 104 |
| **Cyfanswm treth ohiriedig** | **(108)** | **104** |
| **Treth ar elw ar weithgareddau arferol** | **(63)** | **132** |

### (b) Ffactorau sy'n effeithio ar y trethi a godir am y cyfnod

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau incwm allanol yn unig. Yn hanesyddol incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

**Ffactorau sy'n effeithio ar drethi a godir am y cyfnod**

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Elw/(colledion) am y flwyddyn | 2,164 | (2,296) |
| Cost treth ddisgwyliedig ar 26% (2010: 21%) | 573 | (482) |
| **Effeithiau:** | | |
| Gwahaniaeth rhwng cyfradd dreth wirioneddol a chyfradd y brif dreth gorfforaethol | (13) | – |
| Incwm di-dreth | (531) | 510 |
| Colledion na hawliwyd | – | 2 |
| Symudiad ym malans y dreth ohiriedig | 16 | – |
| Incwm o fuddsoddiad ffrancedig | – | (3) |
| **Trethi a godir y flwyddyn hon** | **45** | **27** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

## 12 Eiddo, offer a chyfarpar am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Eiddo ar Les £'000 | Offer a Chyfarpar £'000 | Dodrefn a Gosodiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2011 | 4,569 | 671 | 348 | 643 | 6,231 |
| Ychwanegiadau | 196 | 61 | 92 | 242 | 591 |
| Gwarediadau | – | (50) | (101) | (286) | (437) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2011** | **4,765** | **682** | **339** | **599** | **6,385** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2011 | 2,458 | 310 | 214 | 403 | 3,385 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 200 | 64 | 57 | 130 | 451 |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – | – |
| Gwarediadau | – | (52) | (100) | (276) | (428) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2011** | **2,658** | **322** | **171** | **257** | **3,408** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | |
| **Gwerth llyfr net:** | **2,107** | **360** | **168** | **342** | **2,977** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2011** | **2,111** | **361** | **134** | **240** | **2,846** |

| | 2010 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Eiddo ar Les £'000 | Offer a Chyfarpar £'000 | Dodrefn a Gosodiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2010 | 4,566 | 542 | 348 | 506 | 5,962 |
| Ychwanegiadau | 3 | 132 | – | 138 | 273 |
| Gwarediadau | – | (3) | – | (1) | (4) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2010** | **4,569** | **671** | **348** | **643** | **6,231** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2010 | 2,261 | 257 | 147 | 331 | 2,996 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 197 | 54 | 67 | 73 | 391 |
| Gwarediadau | – | (1) | – | (1) | (2) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2010** | **2,458** | **310** | **214** | **403** | **3,385** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2010** | **2,111** | **361** | **134** | **240** | **2,846** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2009** | **2,305** | **285** | **201** | **175** | **2,966** |

## 13 Asedau anghyffyrddadwy am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Meddalwedd | Trwyddedau | Asedau sydd wrthi'n cael eu creu | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2011 | 204 | 488 | 80 | 772 |
| Ychwanegiadau | 1 | 12 | 325 | 338 |
| Trosglwyddiadau | 80 | – | (80) | – |
| Gwarediadau | – | (33) | – | (33) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2011** | **285** | **467** | **325** | **1,077** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2011 | 48 | 209 | – | 257 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 68 | 101 | – | 169 |
| Gwarediadau | – | (30) | – | (30) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2011** | **116** | **280** | **–** | **396** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2011** | **169** | **187** | **325** | **681** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2010** | **156** | **279** | **80** | **515** |

| | 2010 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Meddalwedd | Trwyddedau | Asedau sydd wrthi'n cael eu creu | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2010 | 100 | 271 | 64 | 435 |
| Ychwanegiadau | 40 | 217 | 80 | 337 |
| Trosglwyddiadau | 64 | – | (64) | – |
| **Ar 31 Rhagfyr 2010** | **204** | **488** | **80** | **772** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2010 | 16 | 151 | – | 167 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 32 | 58 | – | 90 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2010** | **48** | **209** | **–** | **257** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2010** | **156** | **279** | **80** | **515** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2009** | **84** | **120** | **64** | **268** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

## 14 Asedau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | | |
|---|---|---|---|
| | Gwarantau Rhestredig £'000 | Ymdd. Unedol £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2010** | **508** | **118** | **626** |
| Ychwanegiadau | - | 1 | 1 |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | (42) | (6) | (48) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2011** | **466** | **113** | **579** |

Mae'r holl warantau rhestredig wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.
Rheolir yr ymddiriedolaethau unedol gan Invesco.

## 15 Derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 31 Rhag 2011 £'000 | 31 Rhag 2010 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau dyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Derbyniadau masnach | 7 | 14 |
| Derbyniadau eraill | 69 | 60 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 352 | 323 |
| **Cyfanswm** | **428** | **397** |

Dyledion cyfredol yw'r rhain, ac nid oes unrhyw symiau dyledus, ond nid oes lleihad mewn gwerth. Nid oes darpariaeth ar gyfer drwgddyledion. Nid oes unrhyw asedau ariannol wedi colli gwerth.

# 17

**16 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 £'000 | 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr | 33,435 | 30,412 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 2,976 | 3,023 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **36,411** | **33,435** |

| | 2011 £'000 | 2010 £'000 |
|---|---|---|
| **Roedd y balansau canlynol wedi'u cadw mewn:** | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 11,261 | 21,285 |
| Adneuon banc tymor byr | 25,150 | 12,150 |
| **Cyfanswm** | **36,411** | **33,435** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

## 17 Taliadau masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 31 Rhag 2011 | 31 Rhag 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau dyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Treth gorfforaethol | 45 | 28 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 722 | 573 |
| Taliadau masnach | 1,793 | 1,345 |
| Taliadau eraill | 3 | 2 |
| Croniadau | 2,051 | 1,647 |
| Incwm gohiriedig | 22,094 | 22,026 |
| Cymhelliant gweithredol gohiriedig | 15 | 15 |
| Rhan gyfredol o brydlesi ariannol | 6 | 17 |
| **Cyfanswm** | **26,729** | **25,653** |
| **Symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Cymhelliant gweithredol gohiriedig | 56 | 71 |
| Prydlesi ariannol | – | 4 |
| Treth ohiriedig | 77 | 185 |
| | **133** | **260** |
| **Cyfanswm** | **26,862** | **25,913** |

Ni thalwyd llog yn ystod y flwyddyn dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llogau) 1998.

**18 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | | |
|---|---|---|---|
| | Darpariaeth ymddeoliad cynnar | Dadadfeiliadau adeiladau | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ionawr 2011 | 91 | 123 | 214 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | | – | – |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (4) | – | (4) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2011** | **87** | **123** | **210** |
| Rhwymedigaeth gyfredol | 4 | – | 4 |
| Rhwymedigaeth anghyfredol | 83 | 123 | 206 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2011** | **87** | **123** | **210** |

| | 2010 | | |
|---|---|---|---|
| | Darpariaeth ymddeoliad cynnar | Dadadfeiliadau adeiladau | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ionawr 2010 | 95 | 100 | 195 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | (4) | 23 | 19 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2010** | **91** | **123** | **214** |
| Rhwymedigaeth gyfredol | 4 | – | 4 |
| Rhwymedigaeth anghyfredol | 87 | 123 | 210 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2010** | **91** | **123** | **214** |

**(i) Costau ymddeoliad cynnar:** Mae'r Cyngor yn talu buddion ychwanegol i weithiwr a ymddeolodd yn gynnar ar sail feddygol, ac mae'n fwy na'r cynllun buddion arferol diffiniedig. Telir swm o arian bob blwyddyn, gydag amodau, i'r gweithiwr am y cyfnod rhwng gadael y swydd yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Ar y dyddiad ymddeol arferol, bydd y balans sy'n weddill yn cael ei dalu i gynllun pensiwn buddion diffiniedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn ategu pensiwn y gweithiwr. Darparwyd hyn yn llawn gan y Cyngor. Cyfrifwyd y ddarpariaeth gan actiwari cynllun pensiwn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol pan adawodd y gweithiwr.

**(ii) Dadfeiliadau:** Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â chydymffurfio â chymalau prydlesi adeiladau sydd ym meddiant y Cyngor. Mae darpariaethau dadfeiliadau'r Cyngor wedi'u cyfrifo ar sail cost amcangyfrifiedig gwariant y dyfodol, er mwyn setlo'r rhwymedigaethau o ran cymalau'r brydles. Cwblhawyd gwaith ailbrisio gan briswyr allanol yn Rhagfyr 2010. Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer hyn yn llawn. Disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei thalu ar ddiwedd y brydles yn 2018.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

## **19 Y Gronfa Bensiwn** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

Mae gan y Cyngor gynllun buddion diffiniedig sy'n cael ei ariannu'n llawn gan gyfraniadau gan y Cyngor a'r Aelodau. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 1 Ebrill 2009 a'i ddiweddaru i 31 Rhagfyr 2011 gan actiwari annibynnol cymwysedig.

Ar 31 Rhagfyr 2011, roedd gan y Cynllun £2.54 miliwn o warged yn seiliedig ar y tybiaethau a fabwysiadwyd. Dan ofynion IFRIC 14: Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, y Gofynion Ariannu a'u Rhyngweithiad, gallai'r Cyngor orfod cyfyngu'r gwarged mewn datganiadau ariannol os na fyddai'n gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r Cynllun, byddai'r Cyngor yn gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged naill ai trwy gymryd seibiant cyfraniadau llawn neu trwy leihau ei gyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid oes cyfyngiad ar y gwarged dan sylw.

Yn achos aelodau'r cynllun buddion a ymunodd â'r Cyngor cyn 12 Mai 1999 a'r ddau aelod a ymunodd wedyn, telir cyfraniadau bob mis ar y gyfradd flynyddol o 27% o'r cyflog Pensiynadwy. Yn achos y rhai a ymunodd â'r Cyngor ar ôl 12 Mai 1999, telir cyfraniadau misol ar gyfradd flynyddol o 24.8%. Mae aelodau'r cynllun buddion a ymunodd â'r cwmni ar neu ar ôl 12 Mai 1999 yn talu 5% o'u Cyflog Pensiynadwy tuag at y cynllun.

Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiodd yr actiwari ar gyfer y diweddariad ar 31 Rhagfyr 2011:

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Cyfradd chwyddiant | 3% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 4% | 5% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau mewn taliad lle mae'r uchafswm LPI yn 5.0% | 3% | 3% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau mewn taliad lle mae'r isafswm LPI yn 3.0% | 4% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau mewn taliad lle mae'r uchafswm LPI yn 2.5% | 2% | 2% |
| Cyfradd gostyngiad | 5% | 5% |

Mae'r tybiaethau marwoldeb ar gyfer y cyfnod cyfredol yn seiliedig ar dabl safonol PNA00 gyda chyfraddau cohort hir o welliant.

# 17

**Y Gronfa Bensiwn** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

| | Canran y dyraniad | Canran y dyraniad |
|---|---|---|
| | **2011** | **2010** |
| Y Gronfa Gydag Elw | 33% | 36% |
| Cronfa AXA Framlington | 67% | 64% |
| Arall (arian parod) | 0% | 0% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

Ni fuddsoddwyd unrhyw asedau'r cynllun pensiwn yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Tybir y bydd y gyfradd adennill ddisgwyliedig cyffredinol ar asedau'r cynllun yn cyflawni'r cynnyrch adbryniant gros ar giltiau 15 mlynedd gydag 1% arall y flwyddyn o elw ar gronfa AXA Framlington.

Mae'r cyfraddau adennill disgwyliedig tybiedig ar gyfer pob categori asedau fel a ganlyn:

| | Cyfradd adennill ddisgwyliedig | Cyfradd adennill ddisgwyliedig |
|---|---|---|
| | **2011** | **2010** |
| Y Gronfa Gydag Elw | 3% | 4% |
| Cronfa AXA Framlington | 4% | 5% |
| Arall (arian parod) | 3% | 4% |
| **Cyfradd adennill ddisgwyliedig gyffredinol** | **3%** | **5%** |

Mae adolygiad wedi'i gomisiynu ar hyfywedd ariannol y trefniadau pensiwn cyfredol.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

**Y Gronfa Bensiwn** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Dadansoddiad o'r symiau a ddebydwyd / (credydwyd) i'r cyfrif incwm a gwariant:** | | |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (957) | (701) |
| Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 371 | 428 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | (410) | (390) |
| Elw (colled)/actiwaraidd | (598) | 1,223 |
| **Cyfanswm (taliadau)/credyd** | **(1,594)** | **560** |
| | | |
| **Dyma'r symiau a nodwyd yn y datganiad o sefyllfa ariannol** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | (9,011) | (7,146) |
| Gwerth teg asedau | 11,551 | 10,417 |
| **Gwarged** | **2,540** | **3,271** |
| | | |
| **Dyma'r newidiadau i werth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig:** | | |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 1 Ionawr 2011 | 7,146 | 6,900 |
| Costau gwasanaeth y cyflogwr | 957 | 701 |
| Costau llog | 410 | 390 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 186 | 152 |
| (Elw)/ colled Profiad | 559 | (27) |
| (Elw) ar newidiadau mewn tybiaethau | (189) | (138) |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun / treuliau gweinyddol a dalwyd | (58) | (832) |
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Rhagfyr 2011** | **9,011** | **7,146** |
| | | |
| **Dyma'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun** | | |
| Gwerth teg ar 1 Ionawr 2011 | 10,417 | 8,905 |
| Enillion disgwyliedig ar asedau | 371 | 428 |
| Elw/(colled) actiwaraidd | (228) | 1,058 |
| Cyfraniadau cyflogwr | 863 | 706 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 186 | 152 |
| Buddion a dalwyd / treuliau gweinyddol a dalwyd | (58) | (832) |
| **Gwerth teg ar 31 Rhagfyr 2011** | **11,551** | **10,417** |

# 17

## **Y Gronfa Bensiwn** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Newidiadau mewn gwarged adferadwy ac elfennau perfformiad y cynllun** | | |
| Balans agoriadol | 3,271 | 2,005 |
| Costau gwasanaeth presennol | (957) | (701) |
| Costau Llog | (410) | (390) |
| Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 371 | 428 |
| Cyfraniadau cyflogwr | 863 | 706 |
| | (133) | 43 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd net | (598) | 1,223 |
| **Balans terfynol** | **2,540** | **3,271** |

| | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Symiau ar gyfer cyfnodau cyfredol a blaenorol** | | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng elw disgwyliedig ac elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun | (228) | 1,058 | 492 | (940) | 121 |
| Enillion a cholledion profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | (559) | 27 | (802) | (19) | 219 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 189 | 138 | (695) | 1,112 | 720 |
| Rhwymedigaethau buddion diffiniedig | (9,011) | (7,146) | (6,900) | (4,664) | (5,360) |
| Asedau'r cynllun | 11,551 | 10,417 | 8,905 | 5,874 | 6,141 |
| Gwarged | 2,540 | 3,271 | 2,005 | 1,210 | 781 |

Tybir bod rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn wedi'u heithrio o asedau lle cyfatebir rhwymedigaethau gan flwydd-daliadau.

Mae pob pensiynwr yn derbyn cynnydd gwarantedig o 3% y flwyddyn o dan delerau'r Cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Caiff gwasanaeth wedi 6 Ebrill 1997 ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Caiff unrhyw iawndal pellach am y cynnydd mewn costau byw ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2011 roedd cyfraniad premiwm blynyddol o £910,451 (2010: £736,656) - gan gynnwys cyfraniad o £46,184 (2010: £30,980) ar gyfer y cynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Roedd arian dros ben yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

parhad

## **20 Ymrwymiadau dan brydlesi** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

### (a) Prydlesi gweithredol

**Nodyn** – Mae'r tabl isod yn dangos isafswm taliadau prydlesi o dan brydlesi gweithredol ar gyfer pob un o'r cyfnodau isod:

Rhaid cofnodi cyfanswm gwerthoedd prydlesi yn erbyn pob categori terfynu. h.y. lle bo prydles yn cynnwys taliad blynyddol o £1,000 dros 10 mlynedd, rhaid cofnodi £1,000 dan derfyn <blwyddyn, £4,000 dan derfyn 2-5 mlynedd a £5,000 dan derfyn > 5 mlynedd

| | 31 Rhag 2011 | Restated 31 Rhag 2010 |
|---|---|---|
| **Mae rhwymedigaeth dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | **£000** | **£000** |
| **Tir ac adeiladau** | | |
| Hyd at flwyddyn | 307 | 287 |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | 1,206 | 906 |
| 5 mlynedd a mwy | 485 | 664 |
| | **1,998** | **1,857** |
| **Arall:** | | |
| Hyd at flwyddyn | 24 | – |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | 51 | – |
| | **75** | **–** |

### (b) Prydlesi ariannol

**Nodyn –** Mae'r tabl isod yn dangos isafswm taliadau prydlesi o dan brydlesi gweithredol ar gyfer pob un o'r cyfnodau isod:

Rhaid cofnodi cyfanswm gwerthoedd prydlesi yn erbyn pob categori terfynu. h.y. lle bo prydles yn cynnwys taliad blynyddol o £1,000 dros 10 mlynedd, rhaid cofnodi £1,000 dan derfyn <blwyddyn, £4,000 dan derfyn 2-5 mlynedd a £5,000 dan derfyn > 5 mlynedd

| | 31 Rhag 2011 | 31 Rhag 2010 |
|---|---|---|
| **Mae rhwymedigaeth dan brydlesi ariannol yn cynnwys:** | **£000** | **£000** |
| **Cyfarpar TG** | | |
| Hyd at flwyddyn | 5 | 15 |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | – | 4 |
| Llai: Elfen o log | (1) | (2) |
| | **4** | **17** |

# 18

## **21 Ymrwymiadau cyfalaf** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

Nid oes gan GDCS unrhyw ymrwymiadau cyfalaf dan gontract nad oedd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2011.

## **22 Trafodion partïon cysylltiedig** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

Ni chafwyd unrhyw drafodion gyda phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011, ar wahân i'r ffioedd a'r treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor fel y datgelwyd yn nodyn 7 y cyfrifon.

# Cynghorwyr

### Bancwyr

Lloyds Banking Group, Corporate Markets, 3rd Floor, 25 Gresham Street, London EC2V 7HN

### Cynghorywyr cyfreithiol

Capsticks Solicitors LLP, 77/83 Upper Richmond Road, London SW15 2TT

Kingsley Napley LLP, Knights Quarter, 14 St John's Lane, London EC1 4AJ

Blake Lapthorn, Harbour Court, Compass Road, North Harbour, Portsmouth, Hampshire PO6 4ST

### Archwilwyr allanol

Crowe Clark Whitehill LLP, St Bride's House, 10 Salisbury Square, London EC4Y 8EH

Amyas C E Morse, The Comptroller and Auditor, General, National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road, Victoria, London SW1W 9SP

### Archwilwyr mewnol

Grant Thornton (UK) LLP, 30 Finsbury Square, London EC2P 2YU (penodwyd Ionawr 2012)

Gwnewch yn siŵr bod eich gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi'i gofrestru: **www.gdc-uk.org**

Rydym am sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bawb.

Os hoffech chi gael copi o'r adroddiad hwn mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print bras neu ar dâp sain), cysylltwch â ni.

Gellir lawrlwytho copïau o'r ddogfen hon ar ein gwefan.


**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**
37 Wimpole Street, London W1G 8DQ
Ffôn: 0845 222 4141
Ffacs: 020 7224 3294
Ffôn Testun (trwy RNID Typetalk): 18001 0845 222 4141
E-bost: information@gdc-uk.org
Y We: www.gdc-uk.org



TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) a gellir ei gael:

**Ar-lein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Trwy'r post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion trwy'r Llinell Frys Seneddol Galwad rad 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

**The Parliamentary Bookshop**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac asiantaethau achrededig eraill

ISBN 978-0-10-297602-1
9 780102 976021